# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 21 TACHWEDD 2023 am 2.00 y. p.** | **TUESDAY, 21 NOVEMBER 2023 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones ***(Is-Gadeirydd)***, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Alwen Watkin, Sonia Williams, Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Douglas M. Fowlie ***(Cadeirydd)***, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats), R. Llewelyn Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor-Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

## R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusens.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023.

**3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH2 2023/24** (Tudalennau 11 - 24)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**4 CYNLLUN STRATEGOL TAI GWAG 2023-2028** (Tudalennau 25 - 70)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**5 ADRODDIAD CYNNYDD SIWRNAI Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Tudalennau 71 - 106)

Cyflwyno adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**6 ENWEBIAD I'R PANEL SGRIWTINI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Tudalennau 107 - 114)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

**7 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 115 - 122)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Douglas Fowlie (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Keith Roberts, Sonia Williams, Arfon Wyn.<br><br>Aelod Cyfetholedig: Gillian Thompson (Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd), Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 3)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Alwen Watkin, Ieuan Williams, Mr John Tierney (Aelod Cyfetholedig yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig), Mr Marc B. Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---



DRAFT

Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, estynnodd y Cadeirydd groeso arbennig i Gillian Thompson i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel Rhiant Lywodraethwr yn cynrychioli ysgolion y sector cynradd.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Sonia Williams ddatgan diddordeb personol yn unig mewn perthynas ag unrhyw faterion a oedd yn cyfeirio at gyllid a'r trydydd sector.

Bu i'r Cynghorydd Jackie Lewis ddatgan diddordeb personol yn unig mewn perthynas ag unrhyw faterion a oedd yn cyfeirio at Menter Môn.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2023 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH1 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2023/24, i'r Pwyllgor ei ystyried. Mae adroddiad y cerdyn sgorio yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 1 mewn perthynas â materion yn ymwneud â gwasanaeth cwsmer, rheoli pobl a chyllid a rheoli perfformiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, yr Aelod Portffolio sy'n gyfrifol am Fusnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, a dywedodd ei fod yn portreadu perfformiad cadarnhaol a chalonogol yn ystod chwarter cyntaf 2023/24 gydag 89% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well neu o fewn 5% i'w targedau. Mae'r adroddiad yn amlygu sawl maes a berfformiodd yn dda, megis y dangosyddion NERS, nifer y tai gwag a ddaeth yn ôl i ddefnydd, Gwasanaethau Oedolion, rheoli gwastraff, digartrefedd, gosodiadau o dan y grant cyfleusterau i'r anabl a chynllunio, sef dangosyddion 35 a 37 yn benodol (canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd a chanran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod, yn y drefn honno). Mae'r dangosyddion perfformiad Iechyd Corfforaethol a'r dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer wedi perfformio'n dda hefyd, ac ar ddiwedd y chwarter cyntaf mae'r Cyngor yn Wyrdd ac yn unol â'r targed mewn perthynas â rheoli presenoldeb, gyda 2.1 diwrnod yn cael eu colli oherwydd absenoldebau fesul gweithiwr cyfystyr ag amser llawn (FTE) yn ystod y cyfnod. Mae perfformiad yn erbyn Dangosydd 09 (canran y ceisiadau rhyddid gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen) yn 84% ac mae hyn yn well na pherfformiad yn ystod yr un chwarter y llynedd, ond, oherwydd bod y targed ar gyfer cwblhau o fewn yr amserlen wedi newid o 80% i 90%, mae'n ambr ar gyfer chwarter cyntaf 2023/24. Nid yw perfformiad y dangosydd hwn a dangosyddion 29 a 30, sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Tai (trosiant unedau y gellir eu gosod a rhent a gollir oherwydd bod eiddo yn wag), a dangosydd 36, sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Cynllunio (nifer yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd), gystal â'r targedau felly bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn parhau i'w goruchwylio a'u monitro i sicrhau eu bod yn gwella yn y dyfodol. Fel sawl cyngor arall, mae'r Cyngor hwn yn wynebu heriau ariannol ac mae pwysau'n dechrau dod i'r amlwg yn y gyllideb oherwydd yr argyfwng costau byw y mae llawer o sôn amdano. Bydd y sefyllfa ariannol yn cael ei fonitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn gobeithio fod y wybodaeth a gyflwynwyd yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini ynglŷn ag aeddfedrwydd trafodaethau am berfformiad ac, er bod perfformiad da yn cael ei amlygu a'i gydnabod, byddir yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal perfformiad a sicrhau fod cynnydd a gwelliannau pellach yn digwydd yn y meysydd a nodwyd.

DRAFT

Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad ac roedd yn falch o gysondeb cyffredinol y perfformiad. Wrth graffu ar fanylion yr adroddiad, cyfeiriodd yr Aelodau at y materion a ganlyn –

- Gan gydnabod fod 89% o ddangosyddion perfformiad yr Awdurdod yn perfformio'n well neu o fewn 5% i'r targedau ar ddiwedd y chwarter cyntaf, gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r 3 dangosydd arall sy'n tanberfformio yn gwella.
- Gan nodi fod gorwariant yn cael ei ragweld yn y gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y mesurau lliniaru sydd ar waith i fynd i'r afael â phwysau ar gyllidebau gwasanaeth a'r trefniadau ar gyfer eu monitro.
- Bod yr adroddiad perfformiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2023 yn cyfeirio at drefniadau i newid y cerdyn sgorio presennol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-28. Roedd y Pwyllgor yn dymuno cael gwybod pa newidiadau sydd wedi'u gwneud, neu y bwriedir eu gwneud, i'r cerdyn sgorio a'r amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith.
- Mewn perthynas â Dangosydd Perfformiad 29 (Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod llety sy'n rhai y mae modd eu gosod, ac eithrio unedau sy'n anodd eu gosod), gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am gefndir a chyd-destun y dangosydd perfformiad a gofynnwyd am eglurhad o'r heriau a ragwelir wrth geisio lleihau faint o amser y mae'n ei gymryd i osod yr unedau, ac, yn gysylltiedig â'r dangosydd hwn, y perfformiad yn erbyn Dangosydd 30 - canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo yn wag.
- Y gwahaniaeth rhwng incwm a'r gyllideb - Dangosydd Rheolaeth Ariannol (03) lle'r oedd y perfformiad yn Goch.
- Wrth groesawu'r gwelliant yn y dangosydd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Dangosydd 28), roedd y Pwyllgor yn dymuno cael gwybod beth oedd wedi cyfrannu at y perfformiad cadarnhaol ac a oedd unrhyw wersi i'w dysgu a'u rhannu gyda gwasanaethau eraill.

Ymatebodd Swyddogion ac Aelodau Portffolio i'r pwyntiau trafodaeth gan ddarparu sicrwydd fel a ganlyn –

- Bod yr adroddiadau perfformiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol dros gyfnod o amser yn dangos fod cynnydd wedi digwydd ar ôl i'r Tîm Arweinyddiaeth edrych ar y data perfformiad a nodi meysydd i'w gwella, gan arwain y broses honno e.e. y gwelliant mewn perfformiad a welwyd rhwng Chwarter 4 2022/23 a Chwarter 1 2023/24 mewn perthynas â Dangosydd 09 – canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen. Mae hyder felly yng ngallu dull a system rheoli perfformiad y Cyngor ac yn yr arweiniad a'r cyfeiriad a ddarperir gan y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau gwelliant parhaus, fel y mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor yn ei dystiolaethu, ac, ar sail hynny, y gobaith yw y gwelir rhagor o gynnydd yn ystod y chwarter nesaf.
- Er bod y Cyngor yn rhagweld gorwariant yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, mae yna nifer o ffactorau amrywiol a allai ddylanwadu'r naill ffordd neu'r llall ar y canlyniad yn ystod y 9 mis sy'n weddill o'r flwyddyn ariannol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod rhai o'r ffactorau hynny yn cynnwys mwy neu lai o alw am wasanaethau, nifer a chymhlethdod yr achosion ym maes gofal cymdeithasol plant, effaith y tywydd ar yr incwm a gynhyrchwyd yn ystod misoedd yr haf ac effaith tywydd garw yn ystod y gaeaf ar ffyrdd ac isadeiledd. Yn ogystal â hynny, mae ansicrwydd ynglŷn â chytundeb tâl staff nad ydynt yn athrawon ar gyfer 2023/24, lefel chwyddiant a chostau ynni, yn ogystal â'r argyfwng costau byw sy'n parhau i gael effaith ac a allai olygu bod mwy o bobl yn troi at y Cyngor am

DRAFT

gymorth. Lle mae pwysau ar gyllidebau, yn benodol ym maes gofal cymdeithasol plant ac oedolion, yna mae trafodaethau'n cael eu cynnal â'r gwasanaeth i nodi ffyrdd o reoli gwariant a chostau wrth barhau i ymateb i anghenion. Gofynnwyd i wasanaethau eraill y Cyngor adolygu pob gwariant nad yw'n hanfodol. Os bydd y sefyllfa'n parhau, yna mae opsiynau ar gyfer cwtogi gwariant, trwy beidio â llenwi swyddi gweigion er enghraifft, ond gan ystyried effaith bosib hynny ar gapasiti a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Er y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i gwrdd â gorwariant yn y gyllideb, bydd hyn yn cyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r cronfeydd hynny i gydbwyso cyllideb 2024/25. Cedwir llygaid barcud ar y sefyllfa ariannol a dylai'r sefyllfa fod yn gliriach ar ddiwedd Chwarter 2. O ran y gwahaniaeth rhwng yr incwm a'r gyllideb, y rheswm am hyn yw'r modd y cafodd incwm y Gwasanaethau Cymdeithasol ei gofnodi a'i briodoli i'r cyfnod anghywir. Bydd y data'n cael ei addasu cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith a disgwylir i'r incwm fod yn llawer agosach at y gyllideb, felly problem gyfrifo yw hon yn bennaf yn hytrach na gostyngiad sylweddol yn yr incwm.

- Y bwriad oedd datblygu cerdyn sgorio newydd fel bod y targedau'n cyd-fynd ag amcanion y Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-28. Ni chwblhawyd y gwaith hwnnw tan fis Awst gan olygu y byddai'n rhaid cyflwyno'r cerdyn sgorio newydd hanner ffordd trwy'r flwyddyn ariannol, ond byddai'n anodd adrodd ar berfformiad y flwyddyn gyfan o wneud hynny. Er bod cerdyn sgorio drafft newydd wedi'i baratoi mae'r Arweinydd a'r Pwyllgor Gwaith anffurfiol wedi cytuno y dylid parhau i ddefnyddio'r cerdyn sgorio presennol tan ddiwedd Mawrth 2024 er mwyn sicrhau fod yr adroddiadau'n gyson ar gyfer y flwyddyn gyfan. Bydd y cerdyn sgorio newydd yn cael ei dreialu yn ystod chwarter 3 a 4 i sicrhau fod y DPA yn briodol a'u bod yn ychwanegu gwerth. Gwahoddir sylwadau Aelodau Etholedig ar y cerdyn sgorio newydd yn ystod yr hydref a'r gaeaf er mwyn i'r cerdyn sgorio fod yn barod i'w roi ar waith ar 1 Ebrill 2024. Credir y bydd y trefniant hwn yn hwyluso'r broses o newid o'r cerdyn sgorio presennol, sy'n gysylltiedig â'r Cynllun y Cyngor blaenorol, i gerdyn sgorio newydd sy'n gysylltiedig â Chynllun y Cyngor 2023-28.
- Bod perfformiad yn erbyn Dangosydd 29, sy'n ymwneud â nifer y dyddiau a gymerwyd i osod unedau o lety y mae modd eu gosod, wedi gostwng oherwydd bod angen gwneud gwaith sylweddol ar nifer fawr o eiddo er mwyn iddynt gwrdd â safonau SATC cyn y gellir eu hail osod. O'r 45 eiddo a fu'n wag am dros 40 diwrnod, roedd angen gwneud gwaith sylweddol ar 30 (66%) ohonynt. Wrth i nifer yr eiddo y mae angen gwneud gwaith sylweddol arnynt gynyddu, mae'n anoddach cwblhau gwaith ar yr eiddo hynny oherwydd prinder o weithwyr i gwblhau'r gwaith sydd angen ei wneud arnynt. Mae disgwyl i berfformiad yn erbyn y dangosydd wella wrth i nifer yr eiddo y mae angen gwneud gwaith sylweddol arnynt ostwng, gan olygu fod mwy o gapasiti i gwblhau gwaith ar eiddo. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng perfformiad Dangosydd 30 (canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag) a Dangosydd 29 oherwydd y mwyaf o amser y mae'n ei gymryd i osod eiddo, y mwyaf o incwm sy'n cael ei golli.
- Mae'r math o waith a gwblhawyd yn ystod y chwarter wedi dylanwadu ar y gwelliant a welwyd yn Nangosydd 28, Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Er enghraifft, os yw'r gwaith a gwblhawyd yn gymharol syml, yna mae nifer cyfartalog y diwrnodau y mae'n ei gymryd i gyflawni'r grant yn gostwng. Y gobaith yw y bydd perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn aros yn Wyrdd drwy gydol y flwyddyn, ond mae'n dibynnu ar nifer y cynlluniau gofal sy'n cael eu cyflwyno a natur yr addasiadau sydd angen eu gwneud.

**Ar ôl ystyried y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch1 2023/24 a nodi ymatebion yr Aelodau Portffolio a Swyddogion i'r materion a godwyd, penderfynwyd –**

- **Nodi'r adroddiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch1 2023/24, gan gynnwys y meysydd gwella sy'n cael eu nodi, ynghyd â'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, yr amser y mae'n ei gymryd i osod unedau llety y mae modd eu gosod, y rhent sy'n cael ei golli oherwydd bod eiddo'n wag ac apeliadau cynllunio, ac**
- **Argymell adroddiad y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru a gynhwysir ynddo i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 4 ADRODDIAD CYNNYDD Y PWYLLGOR SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Cyllid ar gyfer y cyfnod Mehefin i Fedi 2023 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, drosolwg o'r materion a ystyriwyd gan y Panel yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023 a 7 Medi 2023. Yn y cyfarfod ym mis Mehefin, bu i'r Panel graffu ar adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 4 2022/23, ac yn benodol y galw am Wasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Tai a'r pwysau ar gyllidebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhaliwyd sesiwn ddatblygu ar reoli dyledion a thrafodwyd rhaglen waith y Panel ar gyfer y chwe mis nesaf. Yn y cyfarfod ym mis Medi, derbyniodd y Panel adroddiad monitro yn gysylltiedig â holl gyllidebau'r Cyngor ar gyfer Chwarter 1 2023/24 a thrafodwyd y meysydd hynny lle mae risgiau'n dechrau dod i'r amlwg. Mewn eitem ar wahân, cafodd y Gwasanaeth Digartrefedd ei ystyried yn fanwl a chadarnhawyd Rhaglen Waith y Panel ar gyfer y cyfnod rhwng Medi ac Ebrill 2024. Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion er sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Panel wedi cael ei sefydlu i graffu'n fwy manwl ar berfformiad ariannol nag yr oedd yn bosib i'r rhiant Bwyllgor ei wneud oherwydd ei raglen waith a'i ymrwymiadau, a'r pwrpas oedd rhoi sicrwydd ynglŷn â rheolaeth ariannol y Cyngor a chaniatáu i aelodau'r Panel ddeall cyllidebau gwasanaeth yn well. Mae trafodaethau'r Panel yn canolbwyntio ar feysydd a phynciau penodol a bydd y Panel yn rhan o'r broses o ddatblygu cyllideb 2024/25 yn ystod y misoedd nesaf.

Wrth ystyried yr adborth gan y Panel Sgriwtini Cyllid, codwyd y materion canlynol gan y Pwyllgor –

- Sut y gellir cryfhau gwaith y Panel ymhellach.

  Cadarnhaodd y Cynghorydd Geraint Bebb y byddai'r Panel yn parhau i graffu ar berfformiad y gyllideb ac y byddai'n derbyn data Chwarter 2 yng nghyfarfod nesaf y Panel. Mae'n bwysig fod y Panel yn sicrhau ei fod yn gofyn y cwestiynau iawn ar yr amser iawn er mwyn derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arno ac i amlygu unrhyw faterion a/neu risgiau sy'n dod i'r amlwg.

- O ran cyfeiriad gwaith y Panel, a ddylai'r gwaith a gyflawnir gan y Panel fod yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

  Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini fod y Cyngor wedi sefydlu strwythur o gyfarfodydd cyhoeddus a bod y tri phanel sgriwtini'n cyfarfod yn breifat yn fwriadol er mwyn caniatáu i aelodau'r paneli hynny edrych yn fanwl ar faterion sy'n ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol nad yw ar gael i'r cyhoedd, a hynny er mwyn caniatáu i'r paneli ddarparu'r lefel o sicrwydd sy'n ofynnol i'r ddau riant Bwyllgor. Gellir cyfeirio unrhyw faterion y mae'r panelau sgriwtini'n eu nodi fel materion o bryder i sylw'r rhiant bwyllgor sgriwtini ac mae'r pwyllgor hwnnw hefyd yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd ar waith y panelau. Ystyrir felly fod y Cyngor yn dryloyw yn y modd y mae'n rhannu gwaith a deilliannau'r panelau sgriwtini trwy'r trefniadau adrodd chwarterol.

DRAFT

- A ddylai'r Panel graffu ar unrhyw feysydd eraill, yn ogystal â'r meysydd sydd ar ei raglen waith.

  Cadarnhaodd y Cynghorydd Geraint Bebb y byddai'r Panel yn canolbwyntio ar y meysydd sy'n wynebu'r heriau ariannol mwyaf, a'r meysydd pennaf yn y cyswllt hwnnw yw'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion. Bydd meysydd eraill yn cael eu craffu wrth i unrhyw faterion/risgiau gael eu hadnabod.

**Penderfynwyd nodi –**

- **Y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod diwethaf o ran gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid, a**
- **Y cynnydd sylweddol a wnaed o ran datblygu strategaeth hunanarfarnu a chwestiynu fel sail i waith y Panel Sgriwtini Cyllid.**

**5 ADRODDIAD PERFFORMIAD/LLESIANT BLYNYDDOL 2022/23**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Adroddiad Perfformiad a Llesiant blynyddol ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer. Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn ffrydiau gwaith y Cynllun Trosiannol, sef cynllun gwaith manwl ar gyfer 2022/23, a dengys fod 54% o'r blaenoriaethau wedi'u cwblhau, mae 29% yn parhau i fynd rhagddynt yn 2023/24 ac mae 13% yn hwyr ond, gyda mesurau lliniaru, maent yn debygol o gael eu hadfer ac mae 4% wedi cael eu dileu. Mae ymateb y Cyngor i'r argyfwng costau byw yn cael ei gofnodi, yn ogystal â'r cymorth amrywiol a ddarparwyd gan ddefnyddio arian grant Llywodraeth Cymru i gynorthwyo preswylwyr lleol sy'n wynebu anawsterau oherwydd yr argyfwng. Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi arddangos cynnydd ac ymrwymiad da mewn sawl maes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel y tystia'r adroddiad sy'n cyfeirio at gyflawniadau penodol mewn perthynas ag adfywio'r economi a gwreiddio newidiadau economaidd cadarnhaol; galluogi'r sector ymwelwyr a lletygarwch i elwa ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys wrth warchod ei hasedau a'i chymunedau, a chynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol holl bwysig ym maes gofal ac addysg. Roedd canlyniadau'r cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn hefyd yn dangos fod y perfformiad yn dda, gyda 71% o'r dangosyddion yn wyrdd yn erbyn eu targedau ac roedd 20% arall o fewn 5% i'w targedau. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r ychydig o ddangosyddion sy'n tanberfformio, yn ogystal â chynnal a gwella perfformiad da. Rhaid diolch i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn ac i drigolion a chymunedau'r Ynys am y gwytnwch y bu iddynt ei ddangos yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Wrth adlewyrchu ar gynnwys yr adroddiad a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod 2022/23, trafododd y Pwyllgor y materion canlynol –

- Y trefniadau i godi ymwybyddiaeth am lwyddiannau'r Cyngor h.y. i ble fyddai'r cyhoedd yn troi i ddysgu am yr hyn a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ystod 2022/23.
- Y mesurau a roddwyd ar waith a gafodd yr effaith gadarnhaol ar berfformiad ac a oes modd dysgu unrhyw wersi o'r broses honno y gellir eu rhannu gyda'r sefydliad cyfan.
- A yw'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar allu'r Cyngor i wasanaethu pobl Môn.
- O ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Perfformiad a Llesiant Blynyddol 2022/23, y meysydd perfformiad y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt yn 2023/24, yn seiliedig ar risgiau.

  Ymatebodd y Swyddogion a'r Aelodau Portffolio fel a ganlyn –

- Mae gwerthoedd y Cyngor a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 yn cynnwys hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys ac mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2022/23



DRAFT

yn darparu sail a chyfiawnhad dros wneud hynny. Mae rhannu negeseuon am yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ac yn ei gyflawni yn dechrau gydag Aelodau Etholedig gan eu bod hwy, trwy eu hymwneud a'u cymunedau a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn gallu hyrwyddo'r Cyngor a'i waith. Rhoddir cyhoeddusrwydd i brosiectau mawr, megis adeiladu ysgolion newydd, pan wneir y penderfyniad. Os yw'r Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yna'r bwriad yw tynnu rhywfaint o'r penawdau a ffeithluniau o'r adroddiad a'u chyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol a'u rhannu mewn negeseuon mewnol ac, yn y dyfodol, y cynllun yw datblygu'r broses hon ymhellach fel bod negeseuon allweddol o adroddiadau'r Cyngor yn gallu cael eu cyfleu ar unwaith i gynulleidfa ehangach heb orfod treulio amser ar olygu ac adolygu testun a naratif i lunio gwybodaeth gryno y gellir ei rhannu. Serch hynny, mae'r adnoddau sydd ar gael a'r galwadau gwaith o ddydd i ddydd ar amser swyddogion yn cyfyngu ar yr uchelgais hon. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer at swyddfa'r wasg a chyfathrebu'r Cyngor sydd yn weithgar iawn o ran hyrwyddo gwasanaethau, digwyddiadau a chyflawniadau'r Cyngor er mai tîm bychan ydyw.

- Bod gan bob Gwasanaeth yn y Cyngor ei gynllun gwasanaeth ei hun sy'n nodi blaenoriaethau'r gwasanaeth a sut y byddant yn cael eu cyflawni, yn ogystal ag amlinellu sut fydd y gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion corfforaethol. Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am reoli eu gwasanaeth eu hunain ac am berfformiad y gwasanaeth ac maent yn gweithio gyda chydweithwyr a thimau i sicrhau fod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus a bod perfformiad gweithredol yn cael ei gynnal. Rhennir profiadau ac arfer dda oddi mewn i dimau a rhwng timau, yn ogystal â chyda'r Tîm Arweinyddiaeth, er mwyn medru dysgu gwersi a gwneud gwelliannau lle bo angen hynny.
- Mae'r argyfwng costau byw wedi arwain at fwy o alw am Wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae staff, adnoddau ac amserlenni ar gyfer cynnal asesiadau o dan bwysau gan fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn mwy o atgyfeiriadau, gyda'r achosion yn fwy cymhleth ac mae problemau iechyd meddwl yn gysylltiedig â nifer ohonynt. Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp ataliol strategol i ddadansoddi data a demograffeg ac asesu effaith yr argyfwng costau byw ar drigolion yr Ynys ac mae perthynas waith dda y Cyngor gyda sefydliadau trydydd sector ac asiantaethau partner yn helpu'r Cyngor i ddeall y sefyllfa yn y cymunedau ac ar lawr gwlad. Manteision bod yn awdurdod llai yw y gellir addasu'r ddarpariaeth yn gyflym i gwrdd ag anghenion sy'n newid a darparu atebion yn gyflym.
- Bod Dogfen Gyflawni Flynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn nodi'r gwaith y bydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod y flwyddyn i gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor 2023/28 ac mae'n darparu cynllun ar gyfer cyflawni targedau penodol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Yn ogystal, mae Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn darparu arfarniad o berfformiad cyffredinol y cyngor ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys yr hyn y gall ei wneud yn well o ran perfformiad, defnyddio adnoddau a rheoli risgiau, a sut y gall wneud hynny. Ar sail y dystiolaeth sy'n cael ei dwyn ynghyd o ffynonellau amrywiol, nodwyd meysydd penodol i'w gwella a byddant yn cael eu monitro trwy gydol 2023/24. Trydedd elfen y Fframwaith Gynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol yw'r cerdyn sgorio ac mae olrhain dangosyddion perfformiad penodol o gymorth i nodi meysydd sy'n tanberfformio, yn ogystal ag unrhyw dueddiadau sy'n dangos fod perfformiad yn dirywio, ac mae'n golygu y gellir rhoi mesurau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â thanberfformiad mewn proses ailadroddol lle mae risgiau'n cael eu nodi cyn gweithredu arnynt a'u monitro.

Gofynnodd yr Aelodau fwy o gwestiynau am statws ambr gweithred allweddol (9) lle mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda busnesau lleol i'w grymuso a'u galluogi i fanteisio ar gyfleoedd a ddarperir gan gontractau'r Cyngor, ac mewn perthynas â hwyluso gwaith atgyweirio ar y Morglawdd yng Nghaergybi.



DRAFT

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor yn delio gyda nifer o flaenoriaethau sy'n gwrthdaro ar hyn o bryd, gan gynnwys cynllunio ar gyfer Porthladd Rhydd Caergybi a pharatoi bidiau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac mae'n golygu fod arbenigedd y tîm datblygu economaidd bychan yn cael ei ddefnyddio ar ffrydiau gwaith eraill. Fodd bynnag, nodwyd y pryder a gofynnir i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd egluro'r cynllun gweithredu a'r amserlen mewn perthynas â gweithred allweddol (9). Serch hynny, mae nifer o brosiectau a oedd yn cael eu cynllunio'r llynedd bellach yn barod i'w rhoi ar waith a buont yn destun gweithgareddau ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth. Y gobaith yw y gellir adrodd ar y prosiectau hyn pan gyflwynir Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/24. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod prosesau caffael yn cael eu hadolygu a'u diweddaru gyda'r bwriad o gryfhau caffael lleol.

O ran y Morglawdd, cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r cynlluniau i adnewyddu'r Morglawdd ac mewn ymateb i gwestiwn am gynhyrchu deunyddiau ar gyfer y gwaith a ph'un a fyddai'r broses honno'n digwydd yn lleol, dywedodd nad yw'r Cyngor yn gallu ymyrryd ym mhroses gaffael Stena Line ond gallai wneud ymholiadau am y dull caffael a'r fethodoleg adeiladu. Gydag unrhyw brosiect mae'r Cyngor yn pwysleisio wrth y datblygwr pa mor bwysig yw defnyddio gweithwyr a chadwyni cyflenwi lleol ac mae sicrhau buddiannau lleol yn rhan o egwyddorion craidd y Cyngor a'i ymagwedd tuag at ddatblygiadau. Mewn ymateb i gais yr Aelod Lleol, y Cynghorydd R. Llewelyn Jones, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhoi diweddariad ysgrifenedig iddo ynglŷn â sefyllfa'r Morglawdd.

**Ar ôl ystyried y dogfennau a'r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y Swyddogion a'r Aelodau Portffolio, penderfynwyd argymell yr Adroddiad Perfformiad a Llesiant 2022/23 i'r Pwyllgor Gwaith fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod yn ystod y cyfnod.**

**Gweithredoedd: Y Prif Weithredwr i –**

- **Dderbyn eglurhad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ynglŷn â'r cynllun gweithredu a'r amserlen ar gyfer Gweithred Allweddol (9) o dan y ffrwd gwaith Adfywio'r economi a gwreiddio newid economaidd cadarnhaol, a**
- **Paratoi diweddariad ysgrifenedig ar gyfer yr Aelod Lleol, y Cynghorydd R. Llewelyn Jones, ynglŷn â sefyllfa adnewyddu'r Morglawdd yng Nghaergybi.**

## 6 ENWEBIAD I'R PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un o'i aelodau i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Cyllid i'w ystyried. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am gefndir a chyd-destun y Panel, ynghyd â'r cylch gorchwyl. Mae'r sedd yn wag gan fod y Cynghorydd Dafydd Roberts wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Panel wedi iddo gael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd Ieuan Williams i wasanaethau ar y Pwyllgor Sgriwtini Cyllid.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill 2024 i'w ystyried.

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 18 Hydref 2023 a dywedodd gan mai dim ond un eitem oedd ar y rhaglen roedd yn argymell fod y cyfarfod yn cael ei ganslo.



DRAFT

Cyfeiriwyd gan aelod o'r Pwyllgor at nifer yr eitemau oedd wedi'u rhaglennu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2024 ac fe godwyd y posibilrwydd o gynnull cyfarfod ychwanegol er mwyn lledaenu'r baich yn fwy cyfartal. Cyfeiriwyd hefyd at gyfranogiad y cyhoedd a chael barn y cyhoedd ar faterion sgriwtini – fe ymatebodd y Rheolwr Sgriwtini trwy gadarnhau fod gan y Cyngor brosesau i alluogi'r cyhoedd gymryd rhan mewn sgriwtini gan gynnwys y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau Sgriwtini.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y Flaen Raglen Waith ar gyfer 2023/24.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma wrth weithredu'r Flaen Raglen Waith, a**
- **Cytuno y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 18 Hydref 2023 yn cael ei ganslo, yn unol ag argymhelliad y Rheolwr Sgriwtini.**

**Y Cynghorydd Douglas Fowlie**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 21 Tachwedd 2023 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2 (2023/24) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Herio Perfformiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Douglas Fowlie |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Carwyn E Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. Argymhelliad/ion**

1.1. Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

1.2. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 2. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Y dangosyddion NERS;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion;
- Dangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Mae'r dangosyddion rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a
- Mae pob un o'r dangosyddion priffyrdd yn uwch na'r targed;
- Y dangosyddion cynllunio (34 a 36).

1.3. Serch hynny, gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth y neu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

1.4. Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

1.4.1. Cwynion Cyffredinol a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen gan nad oes data ar gael ar gyfer Ch2;
1.4.2. Cyfartaledd y diwrnodau a gymerir i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl;
1.4.3. Canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag Cyfartaledd y dyddiau calendr i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod);
1.4.4. Canran yr apeliadau cynllunio sy'n cael eu gwrthod.

1.5. Gofynnir i'r pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| **2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor |

**3. Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4. Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

4.1 Mae 91% o ddangosyddion perfformiad yr Awdurdod naill ai'n well neu o fewn 5% i'w targedau sy'n adroddiad cadarnhaol ar ddiwedd chwarter 2. Pa sicrwydd y gellir ei roi y bydd y 3 dangosydd arall yn gwella?

4.2 Mae'r adroddiad yn parhau i ragweld gorwariant ar ddiwedd Chwarter 2. Pa fesurau sy'n cael eu cyflwyno i reoli pwysau cyllidebol?

4.3 Mae'r cerdyn sgorio yn nodi cynnydd yn y diwrnodau cyfartalog a gollwyd oherwydd absenoldeb fesul CALI. Pa gamau sy'n cael eu cymryd?

**5. Cefndir / Cyd-destun**

5.1 Mae ein Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn adnabod anghenion lleol a blaenoriaethau llesiant, ac mae'n gosod ein nodau a'n hamcanion ar gyfer y bum mlynedd nesaf.

5.2 Mae'r adroddiad monitro cerdyn sgorio'n cael ei ddefnyddio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dyddiol y Cyngor. Mae'n darparu'n deallusrwydd er mwyn galluogi'r Cyngor i ddilyn agwedd ragweithiol tuag at reoli perfformiad ac

felly, mae'r adroddiad yn adnabod unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

5.3 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwedd Ch2, a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Amherthnasol

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Nodir yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol diwedd Ch2

**8 – Atodiadau**

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 2

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2023/24 – Chwarter 1 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2023 ac a dderbyniwyd ganddo.)
- Cynllun y Cyngor 2023-2028

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2023/24)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae ein Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn nodi anghenion lleol a blaenoriaethau llesiant ac mae'n gosod ein nodau a'n hamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

1.2 Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio'n cael ei ddefnyddio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dyddiol y Cyngor sydd yn sylfaen i gyflawni Cynllun y Cyngor. Mae'n darparu gwybodaeth er mwyn galluogi'r Cyngor i reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, felly, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

1.3 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwedd Ch2 a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n monitro perfformiad yn cyd-fynd â thri amcan llesiant presennol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau bob pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithio â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar y Cerdyn Sgorio bob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd fydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor) (Ch3).

2.3 Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o un chwarter i'r llall trwy gydol y flwyddyn.

2.4 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer pob adran o'r cerdyn sgorio isod, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol y Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adran 151:

- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth


- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Ni ellir dadansoddi perfformiad y dangosyddion iechyd corfforaethol yn llawn ar gyfer y chwarter hwn. Er hynny, mae'r mwyafrif (67%) o ddangosyddion lle mae data ar gael yn erbyn y targedau sy'n cael eu monitro yn yr adran hon yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nid oes data ar gael ar gyfer nifer o'r dangosyddion ar gyfer y chwarter hwn. Mae rhagor o wybodaeth isod yn nodi pam fod data ar goll, ynghyd â rhai o'r uchafbwyntiau:

3.2 Mewn perthynas â Rheoli Cwynion Cwsmeriaid, oherwydd anawsterau gweithredol yn y tîm sy'n casglu'r ystadegau ar ran y Cyngor, ni allwn adrodd ar Gwynion Cwsmeriaid na cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y chwarter (nid yw hyn yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod y trefniadau adrodd yn wahanol). Er nad yw'r ystadegau sy'n cael eu casglu ar ran y Cyngor gennym, mae'r gwasanaethau'n parhau i fonitro Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn union fel y buont yn ei wneud yn y gorffennol ac mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli'r mater. Nid oes unrhyw bryderon ynglŷn â Chwynion yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd.

3.3 Ar ddiwedd Ch2 mae'r Cyngor yn GOCH yn erbyn ei darged, gyda 4.21 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ystod y cyfnod, o gymharu â tharged o 3.81 diwrnod. Mae'r perfformiad hwn wedi gostwng ychydig o gymharu â'r un cyfnod yn ystod y pedair blynedd diwethaf, yn bennaf oherwydd salwch tymor hir sydd yn cyfrif am 62% o absenoldebau yn Ch2.




3.4 Ar hyn o bryd, ar ddiwedd yr ail chwarter, mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld gorwariant o £0.368m yng nghyllideb y cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024. Roedd y sefyllfa ychydig yn well o gymharu â'r rhagolwg ar ddiwedd Ch1, er bod y cyngor yn parhau i ragweld gorwariant

fydd yn cael ei ariannu o'r balansau cyffredinol. Mae Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr yn ymwybodol o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol a phwysigrwydd ceisio cadw gwariant o fewn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Er na roddwyd cyfarwyddyd ffurfiol mewn perthynas â'r angen i gymryd camau i leihau gwariant (e.e. peidio â recriwtio staff), bydd yr holl wariant yn ystod y misoedd nesaf yn cael ei graffu i gyfyngu gwariant i wariant hanfodol yn unig a bydd swyddi gweigion yn cael eu hadolygu cyn penderfynu a ddylid eu hysbysebu.

3.5 Mae nifer o faterion a phryderon a allai newid y rhagolwg yn ystod ail hanner y flwyddyn. Wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi, bydd effeithiau'r materion a'r pryderon a nodir isod yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau monitro wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur.

3.5.1 Effaith y dyfarniad cyflog terfynol ar gyfer staff NJC ar gostau, er y disgwylir i'r gost ychwanegol derfynol fod o fewn y ddarpariaeth ychwanegol yn y gyllideb.

3.5.2 Mae'r sefyllfa o ran Gofal Cymdeithasol yn destun pryder arbennig a rhagwelir gorwariant o £2.058m yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Er hynny, mae'r sefyllfa wirioneddol yn cael ei chuddio gan fod grantiau a chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ostwng y gorwariant. Heb y cyllid ychwanegol hwn, byddai oddeutu £3.5m o orwariant.

3.5.3 Yn y pendraw, bydd yr argyfwng costau byw yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd) a gallai arwain at ostwng incwm gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio a ffioedd parcio wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

3.6 Bydd y sefyllfa ariannol yn 2023/24 yn dylanwadu hefyd ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2024/25 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu'r cynnydd a welwyd mewn costau yn 2023/24 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor a bydd hyn yn lleihau'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2024/25. Bydd rheolwyr yn cadw llygad gofalus ar y sefyllfa ariannol yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol ac efallai y bydd angen rhoi mesurau ar waith i arbed costau yn 2023/24 er mwyn cynnal lefel bresennol y cronfeydd clustnodedig a'r balansau cyffredinol.

3.7 Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 yw £4.099m, a gallai lithro i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2024/25 a bydd yn cael ei gynnwys wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

3.8 Mae gwybodaeth bellach am reolaeth ariannol i'w weld yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 2', 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 2' ac 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 2' fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd.

3.9 Mae canlyniadau'r dangosyddion ar gyfer yr adran hon yn rhoi sicrwydd rhesymol fod y Cyngor yn rheoli ei bobl, ei gwsmeriaid a chyllid mewn modd sy'n ddisgwyliedig gan Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd Chwarter 2 mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif (91%) o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae tri dangosydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ystod Chwarter 2 ac maent yn cael eu dangos ar y cerdyn sgorio mewn Coch neu Ambr.

4.2 Ar ddiwedd Chwarter 2, mae perfformiad ein hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, wedi bod yn dda ac nid oes unrhyw ddangosydd o dan yr amcan hwn yn tanberfformio ar hyn o bryd.

4.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd o dan yr amcan hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.3.1 Dangosyddion y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff (NERS) (9 a 10) – lle mae'r ddau ddangosydd yn wyrdd yn erbyn eu targedau.

4.3.2 Nifer yr eiddo gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd (dangosydd 11) – gyda 40 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o gymharu â tharged o 25. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 40 llai o dai gwag yn ein cymunedau.


4.4 Ar ddiwedd y chwarter, mae dau ddangosydd yn tanberfformio o dan yr ail amcan llesiant**, Amcan 2**, lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

4.4.1 Dangosydd 28 – Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 193 diwrnod yn erbyn targed o 170 diwrnod.

Nid yw'r perfformiad cystal â'r 160 diwrnod a gofnodwyd yn Chwarter 1 na'r 173 diwrnod a gofnodwyd ar gyfer Chwarter 2 2022/23. Mae'r rhesymau dros y dirywiad ym mherfformiad y dangosydd hwn yn cynnwys:

- Anhawster i gael mynediad i eiddo oherwydd y pryderon sydd gan gleientiaid yn dilyn y pandemig coronafeirws;
- Anawsterau wrth ddod o hyd i gontractwyr i gyflawni'r gwaith. Ar hyn o bryd dim ond 6 contractwr ar yr Ynys sy'n gosod yr addasiadau;

- Addasiadau sy'n cymryd mwy o amser i'w cwblhau;
- Newidiadau yn y meini prawf cymhwyster sydd wedi arwain at fwy o alw am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.




4.4.2 Dangosydd 29 – Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio unedau sy'n anodd eu gosod) – sydd yn goch gyda pherfformiad o 48 diwrnod yn erbyn targed o 40 diwrnod. Mae hyn yn ostyngiad ar y 30 diwrnod a welwyd ar gyfer yr un cyfnod yn 2022/23 a'r 35 diwrnod yn 2021/22.

Er hynny, mae perfformiad yn gysylltiedig â'r dangosydd hwn 4 diwrnod yn well na'r perfformiad ar ddiwedd Chwarter 1 (52 diwrnod ar gyfartaledd). Mae'r rhesymau a nodwyd yn yr Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 1 yn parhau i fod yn wir ac mae sicrhau gwelliant pellach yn y dangosydd hwn yn dibynnu ar y gwaith sydd angen ei wneud ar eiddo sy'n cael eu dychwelyd i sicrhau eu bod yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC). Bydd y dangosydd hwn yn gwella unwaith y bydd nifer yr eiddo y mae angen gwneud gwaith sylweddol arnynt yn gostwng gan y bydd hyn yn cynyddu capasiti i gwblhau eiddo.

4.5 Mae rhai o'r enghreifftiau o berfformiad da a welwyd ar gyfer yr amcan llesiant hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.5.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16, 18 a 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ac mae'r dangosydd arall (Dangosydd 17) yn felyn ar gyfer y chwarter. Mae hyn yn galonogol mewn cyfnod lle mae poblogaeth sy'n heneiddio ac anawsterau i recriwtio staff yn golygu fod y Gwasanaeth yn parhau i fod o dan bwysau.

4.5.2 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Plant (Dangosyddion 20-25) i gyd yn Wyrdd heblaw am un sydd o fewn 5% i'w darged ac yn Felyn ar y cerdyn sgorio. Mae'r perfformiad yn arbennig o dda o ystyried y cynnydd sylweddol yn yr atgyfeiriadau sy'n dod i'r gwasanaeth a'r pwysau ychwanegol oherwydd yr argyfwng costau byw.


4.5.3 Mae'r Dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 + 27) ar gyfer y Gwasanaeth Tai wedi perfformio'n dda hefyd, ac mae'r ddau'n Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter ac mae'r perfformiad yn well na'r perfformiad yn Chwarter 1.

4.6 Mae perfformiad ein dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol, wedi bod yn dda hefyd, gyda 90% (9 o'r 10 dangosydd) yn uwch na'r targed.

4.7 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

4.7.1 Mae'r dangosyddion rheoli gwastraff (Dangosydd 31 – 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter cyntaf. Roedd 95% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân ac mae'n galonogol nodi fod sbwriel sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn cael ei glirio o fewn diwrnod. Roedd canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 67.77% ar gyfer y chwarter ac mae'n argoeli'n dda o ran perfformio'n well na'r targed blynyddol o 64%.

4.7.2 Mae'r tri dangosydd priffyrdd sy'n ymwneud ag arolygon o gyflwr ffyrdd A, B ac C yr Ynys (dangosyddion 38 - 40) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Mae dau o'r tri, sy'n gysylltiedig â ffyrdd dosbarth B ac C, wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn. Gwelwyd ychydig o ostyngiad yn y perfformiad yn gysylltiedig â ffyrdd dosbarth A, o 2.6% i 2.7%. Mae hwn yn berfformiad cadarnhaol o safbwynt trigolion yr ynys ac ymwelwyr fel ei gilydd, yn enwedig mewn cyfnod lle mae mwy o bwysau ar y rhwydwaith ffyrdd oherwydd bod mwy o bobl yn ymweld â'r ynys.





4.7.3 Mae perfformiad dau o'r tri dangosydd cynllunio (dangosyddion 35 a 37) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau, ac maent yn uwch na pherfformiad y blynyddoedd blaenorol. Mae'r ceisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch o fewn amser (dangosydd 35) yn

parhau i berfformio'n dda iawn gyda 95% o'r ceisiadau wedi cael eu penderfynu ar ddiwedd Chwarter 2. Mae hyn yn cymharu â pherfformiad o 91% ar ddiwedd 22/23 a 79% ar ddiwedd 2021/22 a 2020/21.

4.8 Yr unig ddangosydd sydd yn tanberfformio yn ystod y chwarter hwn yw:

4.8.1 Dangosydd 36 – canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 40% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn well na'r perfformiad ar ddiwedd Chwarter 1 pan wrthodwyd 0%, ac ar ddiwedd Chwarter 2 2022/23 pan wrthodwyd 36%.

Mae'r dangosydd hwn yn delio â nifer fechan o achosion. O'r tair apêl ar gyfer y chwarter hwn, cafodd dau eu gwrthod. O gyfuno hyn â chanlyniadau'r chwarter cyntaf, mae'n golygu fod dau allan o bum apêl wedi cael eu gwrthod. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apeliadau ar gyfer ceisiadau tebyg er mwyn gweld a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n galw am ddehongliad gwahanol o'n polisïau. Bwriedir cynnal hyfforddiant ar apeliadau cynllunio ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio gan fod rhai o'r apeliadau a gadarnhawyd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio a wrthodwyd gan y pwyllgor yn groes i argymhellion swyddogion.




## 5. CASGLIAD

5.1 Mae'n galonogol nodi bod 86% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'u targed neu o fewn 5% i'r targedau ar gyfer y chwarter.

5.2 Mae'r adroddiad yn amlygu rhai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 2. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Y dangosyddion NERS;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion;
- Dangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd;

- Y dangosyddion digartrefedd;
- Mae'r dangosyddion rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a
- Mae pob un o'r dangosyddion priffyrdd yn uwch na'r targed;
- Y dangosyddion cynllunio (34 a 36).

5.3 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai meysydd sy'n tanberfformio yn erbyn eu targedau. Amlygir y rhain yn 6.1 isod.

**6. ARGYMHELLION**

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd sydd wedi gwella a'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Y meysydd a argymhellir yw:

6.1.1 Cwynion Cyffredinol a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen gan nad oes data ar gael ar gyfer Ch2;
6.1.2 Cyfartaledd y diwrnodau a gymerir i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl;
6.1.3 Cyfartaledd y dyddiau calendr i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod);
6.1.4 Canran yr apeliadau cynllunio sy'n cael eu gwrthod.

**7. RHESTR TERMAU**

7.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

7.1.1 DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
7.1.2 Ch1 – Chwarter 1
7.1.3 Ch2 – Chwarter 2
7.1.4 Ch3 – Chwarter 3
7.1.5 Ch4 – Chwarter 4
7.1.6 Statws CAG – Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed
7.1.7 Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol
7.1.8 FTE – Cyfwerth ag Amser Llawn
7.1.9 FOI – Rhyddid Gwybodaeth
7.1.10 CRT – Cyfrif Refeniw Tai
7.1.11 NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
7.1.12 DTL – Anodd eu Gosod
7.1.13 NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
7.1.14 CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
7.1.15 CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2022/23

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch / Q Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | | | 92.1% | | | 91.69% | - |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | | | 87.2% | | | 85.22% | - |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | | | | | | 3.20% | 2.60% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3) | | | | | | 100% | - |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch3) | | | | | | 68% | 68% |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch4) | | | | | | - | - |
| 7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Melyn / Yellow | ↓ | 223k | 234k | 535k | 539k | 388k |
| 8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 62% | 50% | 50% | 72% | 47.5% |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 83% | 80% | 80% | 78% | 84% |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 40 | 25 | 50 | 80 | 91 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Melyn / Yellow | → | 0 | 1 | 3 | 1 | 1 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 18 | 18 | 18 | 16.61 | 13.89 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) | | | | | | | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annib** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch4) | | | | | | | - |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.03% | 90% | 90% | 91.69% | 94.78% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Melyn / Yellow | ↓ | 61.54% | 62% | 62% | 64.71% | 64.85% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 15.3 | 19 | 19 | 16.74 | 14.33 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.30% | 93% | 93% | 98.10% | 96.10% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↑ | 88.52% | 90% | 90% | 86.75% | 87.15% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↓ | 3.47% | 5.00% | 10% | 6.15% | 9.79% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 14.52% | 15% | 15% | 14.35% | 5.74% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 253 | 270 | 270 | 306 | 318 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 99.24% | 95% | 95% | 98.31% | 99.10% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Gwyrdd / Green | ↑ | 92.53% | 90% | 90% | 93.83% | 85.99% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 95% | 80% | 80% | 89.53% | 80.95% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 98% | 85% | 85% | 98.45% | 92.00% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Coch / Red | ↓ | 193 | 170 | 170 | 193 | 172.3 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Ambr / Amber | ↑ | 48 | 40 | 40 | 35.8 | 28.7 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Gwyrdd / Green | ↑ | 1.58% | 1.70% | 1.70% | 1.83% | 1.66% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | → | 95% | 95% | 95% | 96% | 95.50% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | ↓ | 67.77% | 66% | 64% | 63.47% | 62.39% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↓ | 0.3 | 1 | 1 | 1 | 0.25 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | → | 106kg | 110kg | 220kg | 207kg | 223kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↓ | 95% | 90% | 90% | 91% | 79% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | ↑ | 40% | 65% | 65% | 47% | 50% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↑ | 90% | 80% | 80% | 87% | 84% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 2.7% | 3% | 3% | 2.6% | 3% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.3% | 4% | 4% | 2.6% | 2.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 7.5% | 9% | 9% | 7.6% | 8.20% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | | | - | | | 515.07 | 486.85 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | | ↑ | 391,910 | | | 1,728,920 | 1,524,961 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | | - | | | 790,899 | 786,247 |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | | | - | | | +6% | + 26% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth

Melyn - o fewn 5% o'r targed Gwyrdd - ar darged neu'n uwch Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter

## Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2023/24

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | | - | 33 | 40 | 55 | 43 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | → | 2 | - | 4 | 9 | 6 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 1* | - | 13 | 20 | 8 |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | | | - | 80% | 82% | 80% | 88% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 80% | 70% | 66% | 75% |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | → | 6 | - | 27 | 41 | 24 |
| 07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | | - | - | 321 | 189 | 104 |
| 08) Nifer o ganmoliaethau | | | 113* | - | 495 | 658 | 662 |
| 09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | | | - | 80% | 72% | 79% | 79.4% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | ↑ | 10k | - | 59.5k | 51k | 33.5k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | ↑ | 19k | - | 36k | 66k | 58k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | ↑ | 11.5k | - | 26k | 21k | 18.5k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | ↑ | 4.5k | - | 9.5k | 11k | 7k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | ↑ | 108k | - | 100k | 92k | 42k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | | ↑ | 200k | - | 327k | - | - |

*Dim yn cynnwys gwybodaeth corfforaethol

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | | | 2376 | - | 2288 | 2202 | 2180 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↓ | 4.21 | 3.81 | 9.15 | 8.73 | 6.68 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 1.58 | - | 4.54 | 3.70 | 1.94 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 2.63 | - | 4.61 | 5.03 | 4.74 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | | | - | - | 8% | 10% | 6% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Ambr / Amber | ↑ | £170,789,000 | | | £171,157,000 | 0.28% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | ↓ | £40,030,000 | | | £36,431,000 | -8.99% |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£6,717,659 | -£7,344,745 | 9.33% | | |
| 05) Balansau cyffredinol diwedd y flwyddyn a ragwelir | | ↑ | | | | -£11,029,890 | |
| 06) Chost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidebwyd | Gwyrdd / Green | → | 2.34% | | | 2.33% | -0.01% |
| 06) Nifer o Wasanaethau rhagwelir yn gorwario mwy na 5% o'i cyllideb | | ↑ | | | | 1 | |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | | 98.00% | | | |
| 08) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Ambr / Amber | ↑ | | 94.10% | | | |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | | 98.5% | | | |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | | 97.1% | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **17/11/2023** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Strategol Tai Gwag 2023-28** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I sgrwtineiddio y Cynllun Strategol Tai Gwag ac argymell ei gymeradwyaeth** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng. Douglas M Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng. G Pritchard** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Elliw Llyr, Rheolwr Polisi, Comisiynu a Cynllun Strategol<br>01248752137<br>ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1 argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Cynllun Strategol Tai Gwag 2023-28.** |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2023-28 yn adnabod tai Tai fel un o'r amcanion Strategol gan 'Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref'. |

### 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Pam mae'r Cyngor yn paratoi Cynllun Strategol Tai Gwag?
2. Sut mae'r Cynllun Strategol yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor: 2023-2028?
3. Sut mae gwaith y Cyngor yn y maes yma'n cymharu efo ardaloedd eraill yng Nghymru?
4. I ba raddau mae'r Cyngor yn ddibynnol ar bartneriaid a cyllid grant i wireddu'r Cynllun Strategol hon?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

Cafodd y Cynllun Strategol ei adolygu yn dilyn ymgynghoriad gyda pherchnogion tai gwag a sesiynau rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor. Bydd Partneriaeth Tai Ynys Môn hefyd yn cael eu hymgynghori ar y Cynllun Strategol arfaethedig.

Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Gwaith ar gyfer delio gydag eiddo gwag fel rhan o'i hymateb i argymhellion wnaed gan Senedd Cymru ar Bwyllgor Gydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol ddŵad ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Rydym, fel Cyngor, wedi cymryd rhan yn hyn ac yn cefnogi'r pwyslais o ddŵad ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

**2. Llwyddiannau'r Strategaeth flaenorol**

Mae'r Strategaeth flaenorol wedi dod ag 525 o dai gwag wedi dwad nôl i ddefnydd ers 2017 gyda 32 o unedau yn cael eu creu neu ail gyflwyno gan olygu bod cyllideb Treth Cyngor yn cael ei gasglu. Mae'r Cynllun Strategol hefyd wedi galluogi llwyddiannau gyda safleoedd anodd fel cyn Clwb Cymdeithasol, Biwmares, hen Glwb Snwcer yng Nghaergybi a Phlas Alltran, Caergybi.

**3. Trosolwg y Cynllun Strategol**

Bydd y Cynllun Strategol yn gweithio i 4 brif nod o:

1. **Data** – Defnyddio sail tystiolaeth er mwyn targedu adnoddau at eiddo gwag

2. **Cyhoeddusrwydd** - codi ymwybyddiaeth o faterion tai gwag a sut gall perchnogion ddŵad ag eiddo yn ôl i ddefnydd

3. **Darparu cefnogaeth ariannol** – gan weinyddu grantiau / benthyciadau LLC a defnydd o'r Premiwm Treth Cyngor

4. **Gorfodaeth** - I flaenoriaethu tai gwag ar gyfer gweithredu gorfodaeth gan gymryd agwedd Cyngor cyfan i ddelio hefo eiddo gwag

5. **Cyd-weithio** -i ddod ynghyd Gwasanaethau sydd ymdrin â'r eiddo mwyaf problemus

**4. Ymgynghori**

Ymgynghorwyd gyda pherchnogion tai gwag yn ystod Mai- Mehefin er mwyn deall pam fod eiddo yn wag, pa broblemau maent yn eu hwynebu a pha ymyrraeth fyddai yn eu cynorthwyo i ddŵad ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn targedu ein hymyraethau. Trefnwyd digwyddiad (3.10.23)gyda gwasanaethau eraill er mwyn adolygu cynnwys y Cynllun Strategol gyda thimoedd sydd yn allweddol i ddŵad ag eiddo yn ôl i ddefnydd.


| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AEC |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Bydd yn cynnig cyfle i bobl fyw a chyfrannu at eu cymunedau lleol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AE |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Mae adnoddau wedi cael ei dyrannu / adnabod ar gyfer y gwahanol fentrau a gynhwysir yn y Cynllun Strategol. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Cynllun Strategol Tai 202-28<br>Ymatebion i'r Ymgynghoriad |

| |
|---|
| Asesiad Effaith Cydraddoldeb<br>Asesiad Effaith Iaith Gymraeg |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

Ynys Môn
The Isle of Anglesey



# Cynllun Strategol Tai Gwag 2023-2028

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Gymraeg /

This document is also available in Welsh.

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

www.anglesey.gov.wales

# Pam bod angen Cynllun Strategol Tai Gwag arnom?

Tudalen 30




Mae tai gwag yn adnodd sydd yn cael ei wastio a all fod yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael â phroblemau tai eraill drwy ddarparu llety ychwanegol; gan leihau pwysau ar restrau aros a chynnig cartrefi ar sail tymor byr a hir.

Ar hyn o bryd, gwelir cynnydd yn y pwysau ar y farchnad dai wrth i lai o bobl allu brynu eu cartref eu hunain. Mae rhent yn y sector rhentu preifat hefyd yn parhau i godi.

Nid oes angen gwaith ar bob cartref gwag, er enghraifft, ni fyddai llawer o bwrpas targedu eiddo gwag trafodaethol sy'n wag am reswm dilys. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i eiddo nad ydynt yn achosi niwsans, mewn cyflwr da neu na fyddant yn addas ar gyfer ymdrin â'r angen tai lleol.

**Diben y Cynllun Strategol Tai Gwag yw sicrhau bod nifer yr eiddo gwag yn aros yn isel ac i annog perchnogion i'w defnyddio eto. Mae'n cynnig gwybodaeth ynghylch sut i ddelio ag eiddo gwag.**

Mae'r Cynllun yn ffurfio rhan o amrywiaeth o ddatrysiadau tai fydd yn cynorthwyo i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023-28, gan ganolbwyntio ar agwedd gydlynol a chysylltiedig ar draws partneriaid mewnol ac allanol.

# Cyd-destun Strategol






Bydd y Cynllun Strategol Tai Gwag yn ymateb i:

- Bwerau disgresiwn Deddf Tai (Cymru) 2014 i awdurdodau lleol weithredu tâl premiwm ar y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo gwag tymor hir a defnyddio hyn tuag at dai fforddiadwy.
- Mae mentrau lleol megis Tai Teg yn cynorthwyo drwy adnabod a dosbarthu eiddo gwag fforddiadwy i'w prynu neu dai rhent canolradd, ac mae'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol ledled Gogledd Cymru.
- Ymateb Llywodraeth Cymru (LlC) i weithio gydag Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael ag eiddo gwag yn dilyn argymhellion adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol, a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd yn Hydref 2019
- Cymorth ar gael i Awdurdodau Lleol i ddelio ag eiddo gwag tymor hir gan Lywodraeth Cymru drwy ei Rhaglen Gorfodi Tai Gwag. Mae'r Cyngor wedi cymryd rhan yn y fenter hon ac yn cefnogi'r pwyslais mae LlC yn ei roi ar ddefnyddio eiddo gwag.
- Eiddo gwag fel cyfrannwr i'r economi leol, a gwelwyd enghraifft o hyn rhwng 2022-23 gyda'n Grant Prynwyr Tro Cyntaf yn gweld 68 a fusnesau bach / canolig neu gontractwyr yn elwa o'r cynllun drwy gwblhau gwaith drwy'r grant hwn.

# Ar gyfer pwy mae'r Cynllun Strategol?

Mae'r cynllun yn cynnig gwybodaeth i randdeiliaid allweddol mewnol ac allanol.
Bydd hefyd o ddiddordeb i amrywiaeth o bobl, megis:

- Pobl sy'n cael trafferth dod o hyd i gartref fforddiadwy a diogel i'w rentu neu brynu yn yr ardal maen nhw'n gweithio neu lle cawsant eu magu
- Pobl sy'n byw ar yr un stryd â thŷ gwag yr effeithir ar eu hiechyd corfforol a meddyliol wrth i gyflwr y tŷ ddirywio a dod yn ganolbwynt ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Pobl sydd wedi etifeddu eiddo ac sy'n chwilio am gymorth ymarferol i'w ddefnyddio unwaith eto, ond yn hytrach, maent yn derbyn biliau ar gyfer y dreth gyngor.
- Meysydd gwasanaeth mewnol i hwyluso cydweithio effeithiol






# Data Sylfaen




- **35,639 eiddo ar Ynys Môn**
- ***612 tŷ gwag****
- **2,591 ail-gartref**
- **876 aelwyd wedi'u cyflwyno'n ddigartref yn 2022-23**
- **69,000 yn byw ar Ynys Môn**

Tudalen 33

Nifer o flynyddoedd lle mae'r eiddo wedi'i gofnodi yn wag




Lleoliadau Eiddo Gwag




**gwybodaeth Gwasanaethau Tai sydd yn cynnwys tai sydd yn derbyn eithriad treth cyngor*

# Cynllun y Cyngor 2023–2028

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.
Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

Tudalen 34

'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

## Ein chwe amcan strategol

| Amcan | Disgrifiad |
|---|---|
| Yr Iaith Gymraeg | Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith. |
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir. |
| Addysg | Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. |
| Tai | Sicrhau fod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref. |
| Economi | Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys. |
| Newid Hinsawdd | Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael a newid gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030. |

Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Gwerthoedd

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.





Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.

Tudalen 36




[Council Plan 2023 to 2028 (gov.wales)]


# Prif feysydd blaenoroiaeth

Mae darparu blaenoriaeth strategol, ynghyd â meysyd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym eisiau sicrhau ein bod:

- Yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol ac yn gwella cartrefi a chymunedau (Thema 2 Strategaeth Dai 2022-27 y Cyngor)
- Yn cyfrannu at yr economi leol (Thema 6 Strategaeth Dai 2022-27 y Cyngor)





# Data – Defnyddio agwedd sy’n seiliedig ar dystiolaeth i dargedu tai gwag



**Pam bod hyn yn bwysig?**

Mae 908 cais ar Gofrestr Tai Cymdeithasol y Cyngor sydd angen tai cymdeithasol addas (fel y nodwyd ym Mawrth 2023).

Gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sy’n cyflwyno eu hunain yn ddigartref, sydd angen llety dros dro fel datrysiad tymor byr ar gyfer eu sefyllfa o ran tai.

Gwella argaeledd llety drwy ddychwelyd eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yw’r ffordd fwyaf effeithiol o leddfu’r galw am dai addas a helpu i ysgwyddo’r pwysau tai mae’r Awdurdod Lleol yn ei wynebu.

**Beth fyddwn ni’n ei wneud?**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud hi’n bosibl i rannu gwybodaeth am eiddo gwag sy’n hwyluso ‘r gwaith o flaenoriaethu pa eiddo sydd angen eu targedu.

Drwy barhau i ddiweddaru ein data a’n gohebiaeth ynghylch eiddo gwag, gallwn ddadansoddi nodweddion eiddo gwag tymor hir a thargedu ein hymateb.

Datblygu Matrics Sgorio ar gyfer eiddo gwag. Defnyddir y Matrics Sgorio i atgyfeirio eiddo i gyfarfod Cymhorthfa Tai Gwag lle ystyrir unrhyw ganlyniad posibl a chamau gorfodi.

**Sut fyddwn ni’n gwneud hyn?**

Defnyddio’r opsiynau sydd ar gael i berchnogion a’u hannog i ddod a’u heiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Hyrwyddo cyfleoedd ariannu er mwyn dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Adrodd yn rheolaidd ar nifer y tai gwag sydd mewn defnydd eto, a pha ymyrraeth a ddefnyddiwyd.

Monitro nifer y Grantiau Rhannu Ecwiti a Phrynwyr Tro Cyntaf sy’n defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor sydd wedi cael ei gymeradwyo bob chwarter.

# Cyhoeddusrwydd- Codi ymwybyddiaeth o dai gwag a sut i'w defnyddio eto



## Pam bod hyn yn bwysig?

Ers 2017, cyngor ac arweiniad sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus ar gyfer dod ag eiddo gwag tymor hir yn ôl mewn defnydd: 56% o gyfanswm nifer yr eiddo gwag.

Y prif resymau fod eiddo'n aros yn wag yw:

- Maent yn cael eu hadnewyddu (33%) neu
- Maent angen gwaith atgyweirio neu adnewyddu (28%).




Mae 33% o eiddo sydd mewn defnydd eto wedi derbyn cymorth ariannol a gynigir gan y Cyngor.

Efallai y bydd perchnogion yn dewis peidio â chymryd rhan gan fod yr eiddo yn breifat, ac nid oes gan y Cyngor hawl i orfodi eiddo o'r fath i'w roi nôl mewn defnydd. Efallai nad ydynt yn ymwybodol neu nad ydynt yn pryderu am yr effeithiau mae'r eiddo yn ei gael ar yr ardal leol ac ar eiddo cyfagos.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol ar gael:

- Canllawiau ar gyfer dod ag eiddo gwag nôl i ddefnydd
- Manylion am gymorth sydd ar gael a sut i fanteisio ar gyllid
- Cynnig grantiau rhannu ecwiti a grantiau eraill ar gyfer eiddo gwag
- Dull ar gyfer adrodd pryderon neu gwynion am eiddo gwag



## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfathrebu gyda pherchnogion eiddo gwag, sy'n cynnwys gwybodaeth am ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol gan gynnwys:

- Adrodd am eiddo gwag ar-lein
- Cymorth ariannol ar gyfer perchnogion tai gwag

**Llythyru wedi dargedu at berchnogion tai gwag**

# Cynnig cymorth ariannol - Drwy weinyddu grantiau/benthyciadau LlC a defnyddio Premiwn y Dreth Gyngor y Cyngor

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae LIC wedi datblygu Rhaglen Gorfodi Eiddo Gwag sy'n helpu'r Cyngor i ddelio ag eiddo gwag tymor hir.

Drwy gynnig datrysiadau mae'r Cyngor yn manteisio ar y refeniw Treth Gyngor a gesglir.

Mae'r economi leol yn elwa, fel enghraifft, ac mae 68 busnes bach / canolig neu gontractwyr wedi cael eu cyflogi drwy ein cynlluniau grant.

Mae effeithiolrwydd thermol eiddo yn gwella ar ôl cwblhau gwaith adferol, er enghraifft, berwr effeithlon, inswleiddio a systemau gwres sy'n arwain at leihau costau ynni ar gyfer perchnogion.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Mae'r Cyngor wedi cymryd rhan ragweithiol yn y fenter hon ac yn cefnogi'r pwyslais mae LIC yn ei roi ar ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Darparu cymorth ariannol ar gyfer perchnogion eiddo gwag fel ffordd o ddod a'r eiddo yn ôl i ddefnydd.

Annog y defnydd o fusnesau lleol bach a mawr.



## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Darparu cymorth ariannol drwy weinyddu grantiau / benthyciadau LIC a defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor, gan gynnwys:

- Troi Tai'n Gartrefi (i'w rhentu neu werthu ymlaen)
- Benthyciad Gwella Cartrefi
- Cynllun Cartrefi Gwag Cenedlaethol
- Cynllun Grant Prynwyr Tro Cyntaf
- Benthyciadau Canol Trefi– sy'n cynnwys unedau Masnachol a Phreswyl yn ogystal â thrawsnewid i greu unedau a fyddai'n dibynnu ar ganiatâd cynllunio
- Gweithio gyda pherchnogion i wella effeithlonrwydd a darparu ynni fforddiadwy ar gyfer y stoc bresennol

Yn ychwanegol at y cymorth a'r mentrau ariannol uchod, gallwn hefyd gyfeirio at:

- Cynllun Prydlesu Preifat LIC
- Prynu eiddo posibl drwy'r Cynllun Llety Cyfalaf Pontio

# Gorfodi – Blaenoriaethu camau gorfodi drwy ddilyn dull ar draws y Cyngor cyfan i fynd i'r afael ag eiddo gwag



## Pam bod hyn y bwysig?

Er ein bod yn cydnabod nad oes unrhyw berchennog eisiau i'r Cyngor gymryd camau gorfodi, mae pwerau ar gael i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd:

- Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag(EDMO)
- Gorchymyn Prynu Gorfodol (CPO)
- Gwerthiant Gorfodol.

Mae cofnodion yn dangos bod 4% o'r eiddo sydd yn ôl mewn defnydd ers 2017 wedi derbyn un ai bygythiad o orfodi neu hysbysiadau.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Ffafrir dod ag eiddo yn ôl i ddefnydd drwy drafod a rhoi anogaeth,  gan osgoi'r angen am fesurau gorfodi sy'n cymryd mwy o amser ac arian.

Mae EDMOau yn gymhleth ac yn peri risg i Awdurdodau Lleol gan fod angen arian cyfalaf a all fod yn ynghlwm fel ffi leol i'r eiddo, a bydd angen cyngor cyfreithiol arbenigol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Bydd eiddo penodol sydd wedi achosi problemau dros gyfnod hir, gan ddenu nifer o gwyniau gan y cyhoedd ac aelodau etholedig, yn cael eu blaenoriaethu. Lle bo'n bosibl, byddant yn cael eu hail-ddatblygu ac yn ôl mewn defnydd drwy gamau gorfodir neu drwy eu prynu mewn cytundeb â'r perchennog. Gweler atodiad 3 am enghreifftiau llwyddiannus.

Bydd y Cyngor yn defnyddio'r Polisi Gwerthiant Gorfodol dim ond os bydd popeth arall yn methu, a dim ond os bydd trafodaethau wedi methu neu nid oes unrhyw ragolwg arall y bydd eiddo gwag yn dod yn ôl i ddefnydd.

Mae *Atodiad* 1 yn dangos y pwerau gwahanol sydd gan yr Awdurdod Lleol.

Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio Cynllun Gweithredu Gorfodi LlC i fanteisio ar y cyngor arbenigol sydd ar gael am eiddo cymhleth.



# Cydweithio – Dod a gwasanaethau ynghyd er mwyn mynd i’r afael â’r eiddo mwyaf problemus

## Pam bod hyn yn bwysig?

- Mae 108 o anheddau wedi bod yn wag ers 6-12 mis
- Mae 299 wedi bod yn wag ers rhwng 1-5 mlynedd
- Mae 128 wedi bod yn wag rhwng 5-10 mlynedd.
- Mae 77 wedi bod yn wag ers dros ddeng mlynedd.

Bydd cylch parhaol o eiddo sy’n dod yn broblemus ac yn cael eu cofrestru fel eiddo gwag tymor hir.



**Beth fyddwn ni’n ei wneud?**

Mae rhesymau, sydd angen dulliau ymyrraeth gwahanol, ynghylch pam bod eiddo yn dod yn wag ac yn aros felly.

Drwy adnabod y rhesymau hyn, gallwn weithio gyda’n gilydd i’w dod â nhw nôl i ddefnydd drwy ddulliau wedi’u targedu.

Rhesymau pam bod eiddo’n wag:

- Perchennog wedi marw
- Angen eu hatgyweirio y tu hwnt i’r hyn mae’r gyllideb yn caniatáu
- Poeni am rentu’r eiddo – efallai bod y perchennog wedi cael profiad drwg yn flaenorol
- Eiddo sydd ar werth – gall eiddo fod mewn cyflwr da ond wedi methu ei werthu am resymau gwahanol.
- Eiddo wedi’u hetifeddu - efallai nad yw’r perchennog yn gwybod, neu eisiau gwneud unrhyw beth gyda’r eiddo. Mae rhai yn eu cadw rhag ofn i’w plant ddewis byw ynddynt yn y dyfodol.
- Pryniant Hapfasnachol – Eiddo wedi’u prynu fel buddsoddiad gan brynwyr nad ydynt yn bwriadu gwneud unrhyw beth â nhw.

## Sut fyddwn ni’n gwneud hyn?

Gweithio gyda’n gilydd fel Gwasanaethau’r Cyngor drwy’r Gymhorthfa Tai Gwag ac asiantaethau eraill i ddelio â’r agweddau gwahanol ar dai gwag a’r deddfwriaethau gwahanol sydd ar waith (gweler atodiad *1 a 2*).



# Llywodraethu: Monitro a Gwerthuso

Er mwyn cyflawni'r cynllun strategol byddwn yn sefydlu trefniadau llywodraethu grymus.

Bydd y trefniadau'n sicrhau cywirdeb, atebolrwydd, cydlyniant a strwythur er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys monitro dangosyddion perfformio a'r cynllun gweithredu'n chwarterol.

Bydd cynnydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camau, canlyniadau ac effaith gan dynnu sylw at lwyddiannau a phroblemau.

Bydd adroddiad ac adolygiad blynyddol o'r cynllun strategol yn cael eu cwblhau.





# Atodiad 1: Deddfwriaeth i gefnogi Cynghorau i ddelio ag eiddo gwag problemus

| Problem | Legislation | Power Granted |
|---|---|---|
| Strwythurau adeiladau dadfeiliedig neu beryglus | Deddf Adeiladu 1984, aa77 & 78 | Adran 77 – gofyniad i berchennog sicrhau bod yr eiddo'n ddiogel |
| Strwythurau adeiladau dadfeiliedig neu beryglus<br>Eiddo heb ei ddiogelu (perygl o fynd i mewn i'r eiddo neu ei fod yn cael ei fandaleiddio, ei roi ar dân ac ati) | | Adran 78 – Galluogi'r Cyngor i gymryd camau brys i wneud yr adeilad yn ddiogel |
| | Deddf Tai 2004, Rhan 1 | System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) sy'n galluogi cynghorau i werthuso risgiau posibl i iechyd a diogelwch sy'n deillio o ddiffygion eiddo a chymryd camau gorfodi. |
| | Deddf Adeiladu 1984, a79 | Gofyniad i'r perchennog atgyweirio, adfer neu ddinistrio. |
| Eiddo heb ei ddiogelu (perygl o fynd i mewn i'r eiddo neu ei fod yn cael ei fandaleiddio, ei roi ar dân ac ati) | Deddf Adeiladu 1984, a78 | Caniatáu'r Cyngor i osod ffens o amgylch yr eiddo. |
| | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, s29 | Caniatáu'r Cyngor i wneud yr eiddo'n ddiogel. |

Tudalen 44

| Problem | Legislation | Power Granted |
|---|---|---|
| Draenio wedi'i rwystro, yn ddiffygiol neu garthffos preifat. | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol 1976), a35 | Rhaid i'r perchennog atgyweirio'r carthffos preifat sydd wedi'i rwystro. |
| | Deddf Adeiladu 1984 a59 | Rhaid i'r perchennog ddelio â'r draenio sydd wedi'i rwystro neu sy'n ddiffygiol. |
| | Deddf Iechyd y Cyhoedd, 1961, a17 | Rhaid i'r perchennog ddelio â'r draenio ddiffygiol neu'r carthffos preifat. |
| Fermin (un ai'n bresennol neu mae risg y byddant yn cael eu denu) | Deddf Iechyd y Cyhoedd1961, a34<br>Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949, s4<br>Deddf Iechyd y Cyhoedd1936, a 83<br>Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a.80<br>Deddf Adeiladu 1984, a76 | Rhaid i'r perchennog gael gwared ar wastraff fel nas denir fermin i'r safle, i gael gwared ar blâu ac unrhyw beth sy'n peryglu iechyd |
| Tir ac eiddo annymunol yn effeithio ar fwynder ardal | Deddf Iechyd y Cyhoedd1961, a34 | Rhaid i'r perchennog gael gwared ar wastraff oddi ar y safle |
| | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a215 | Rhaid i'r perchennog atgyweirio'r eiddo sy'n cael effaith andwyol ar ardal oherwydd ei gyflwr. |

# Atodiad 2: Rhestr o Wasanaethau'r Cyngor sydd ynghlwm ag eiddo gwag

**Aelodau'r Cyngor**

- Arweinyddiaeth Strategol
- Cymeradwyaeth a chymorth trawsbleidiol ar gyfer polisi gorfodi tai gwag.
- Atgyfeirio eiddo gwag ar gyfer archwiliad.

**Gwasanaethau Cyfreithiol**

- Cymryd camau cyfreithiol i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.
- Cynnig cyngor a chymorth ar agweddau cyfreithiol i adrannau eraill.

**Y Dreth Gyngor**

- Cynnig cyngor a chymorth i berchnogion tai gwag ar eithriadau'r Dreth Gyngor.
- Cadw data ar berchnogion eiddo gwag a pherchnogion ail-dai.
- Cynnig gwybodaeth i'r Swyddog Tai Gwag.

**Gwasanaeth Tai Gwag**

- Cyfrifoldeb cyffredinol dros ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.
- Cydlynu agwedd y Cyngor at orfodi tai gwag.
- Cynnig cyngor a chymorth i berchnogion.
- Blaenoriaethu eiddo ar gyfer camau gorfodi.
- Cynnig cynlluniau cymhelliad ariannol

**Rheoli Adeiladau**

- Cyngor a chymorth i berchnogion ynghylch ceisiadau rheoli adeiladau.
- Camau gorfodi yn erbyn strwythurau peryglus a all fod yn beryglus i'r cyhoedd.

**Iechyd yr Amgylchedd**

- Camau gorfodi yn erbyn eiddo sy'n cael effaith andwyol ar yr ardal neu'r amgylchedd.
- Cwblhau archwiliadau ar eiddo gwag tymor hir dan Ddeddf Tai 2004.

**Gwasanaethau Cynllunio**

- Cyngor a chymorth i berchnogion ar ail-ddatblygiad/atgyweirio posibl i eiddo.
- Cyngor ar ddeddfwriaeth cynllunio.
- Camau gorfodi i ddiogelu gwerth mwynder ardaloedd preswyl.

# Atodiad 3: Astudiaethau Achos

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos rhai o'r ymyraethau gydag eiddo gwag tymor hir.

- **Hen Glwb Cymdeithasol, Biwmares – Gorchymyn Prynu Gorfodol**

- Mae'r Cyngor wedi gweithredu Gorchymyn Prynu Gorfodol I brynu'r heb Glwb Cymdeithasol a Chwaraeon yn Steeple Lane, Biwmares lle cafodd yr adeilad peryglus presennol ei ddymchwel a'i ail-ddatblygu yn chwe fflat un ystafell wely newydd. Cynigir y fflatiau hyn yn ôl rhent canolradd i bobl, yn enwedig gyda chysylltiad lleol i'r ardal. Bydd y datblygiad wedi'i gwblhau ym mis Medi 2023.



**Cyn:**



**Ar ôl:**



- **Plas Alltran, Caergybi– Prynu drwy Gytundeb**

- Ail-ddatblygu Plas Alltran, adeilad dafeiliedig Gradd II ger porthladd Caergybi. Fe'i prynwyd drwy drafodaethau gyda'r perchennog blaenorol er mwyn creu pedwar fflat un ystafell wely i'w cynnig fel tai cymdeithasol.

**Cyn:**




**Datblygiad Arfaethedig:**



**Canlyniad yr Arolwg ar Dai Gwag 2023**

Fel rhan o baratoi Strategaeth Tai Gwag 2023-28, anfonwyd arolwg at berchnogion eiddo gwag tymor hir, oedd yn gyfanswm o 542 eiddo. Nid yw hyn yn cynnwys eiddo sy’n derbyn eithriadau’r Dreth Gyngor megis eiddo mewn profeb, perchnogion sy’n derbyn gofal yn rhywle arall neu mewn gofal preswyl/Ysbyty, neu berchnogion dan gadwad.


Ar 17 Gorffennaf 2023, derbyniwyd 87 ymateb, gyda 9 wedi’u cwblhau’n rhannol. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 16%. Mae’r canlyniadau canlynol yn amlinellu’r cefndir a’r rhesymau sy’n egluro pam bod eu heiddo yn wag a heb ddodrefn, a beth ellir eu cymell i sicrhau bod yr eiddo nôl mewn defnydd.

Gofynnodd Gyngor Sir Ynys Môn y cwestiynau canlynol i berchnogion eiddo gwag tymor hir:

1. Pam bod yr eiddo yn wag?
2. Ym mha gyflwr mae’r eiddo?
3. Sut ydych chi wedi dod yn berchen ar yr eiddo hwn?
4. Beth ydych chi’n bwriadu ei wneud gyda’r eiddo?
5. A yw’r gost o atgyweirio yn ffactor sy’n golygu bod yr eiddo dal yn wag?
6. A yw’r eiddo yn achosi unrhyw broblemau i chi?
7. Pa rai o’r gwasanaethau hyn a all eich annog i ddod â’r eiddo yn ôl mewn defnydd?


Isod, gweler yr atebion i'r cwestiynau hyn.

**Pam bod yr eiddo yn wag?**





Yn ôl yr ymatebion a dderbyniwyd, y prif resymau fod eiddo yn aros yn wag yw am eu bod yn cael eu hadnewyddu (33%), neu am eu bod angen gwaith atgyweirio neu adnewyddu (28%). Mae'r canlyniadau'n dangos bod 16% o'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg yn ceisio gwerthu eu heiddo gwag. Ymhlith y rhesymau eraill bod eiddo yn parhau'n wag, y tu hwnt i'r opsiynau a ddarparwyd, yw gwaith dymchwel ac ail-adeiladu a gadarnhawyd gan ddau a ymatebodd yn yr adran 'arall'.

**Pam fod yr eiddo yn wag?**





**Ym mha gyflwr mae'r eiddo?**





**Sut ydych chi wedi dod yn berchen ar yr eiddo?**

Bu i Gyngor Sir Ynys Môn holi am hanes eiddo gwag y perchen, a sut y bu iddynt ddod yn berchen ar yr eiddo sydd yn wag. Roedd 33.8% o'r ymatebwyr wedi etifeddu eu heiddo, ac mae 4.1% yn gweithredu fel ysgutor ystâd. Yr ail ateb mwyaf poblogaidd yw bod ymatebwyr wedi bwriadu byw yn yr eiddo, ar un adeg.

**Bwriadau perchnogion eiddo gwag?**





**A yw'r gost o atgyweirio yn ffactor sy'n golygu bod yr eiddo dal yn wag?**





Pan ofynnwyd a yw'r gost o atgyweirio yn ffactor sy'n golygu bod yr eiddo yn wag, cadarnhaodd 64% fod hyn yn wir yn eu hachos nhw. Dywedodd 36% o berchnogion nad oedd y gost yn ffactor.

**A yw'r eiddo yn achosi unrhyw broblemau?**




Pan ofynnwyd y cwestiwn 'a yw'r eiddo yn achosi unrhyw broblemau?', dywedodd 33% o ymatebwyr nad yw'r eiddo'n achosi unrhyw broblemau iddynt. Cadarnhaodd 28% fod y gost o gynnal a chadw yn broblem i berchnogion, a gall hyn gynnwys premiwm y Dreth Gyngor. Mae 4% yn wynebu problemau gyda phla, cnofilod neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bu i rai ymatebwyr ddewis 'arall' fel ateb, gan gynnwys sylwadau megis "cynnydd yng nghostau deunyddiau" a "phroblemau wrth ddod o hyd i grefftwyr".

**Pa rai o'r gwasanaethau hyn a all eich annog i ddod a'ch eiddo yn ôl mewn defnydd?**




Byddai 58.02% o ymatebwyr yn cael eu hannog gan gymorth ariannol drwy grantiau a/neu fenthyciad di-log i adnewyddu ac atgyweirio eu heiddo gwag. Byddai 17.28% o ymatebwyr angen cymorth i adnabod prynwyr posibl neu denant addas. Mae 4.94% wedi mynegi eu diddordeb mewn cynllun prydlesu preifat.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (**gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
|---|---|---|
| V0.1 | Medi 2023 | |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| 1 - Beth sy'n cael ei asesu? | Cynllun Strategol Tai Gwag CSYM 2023-28 |
| 2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Yn disodli'r Strategaeth Tai Gwag blaenorol ar gyfer Ynys Môn |
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma? | Mae'r Cynllun Strategol Tai Gwag ar gyfer Ynys Môn y cyfeiriad i ddwad ag eiddo gwag yn ol i ddefnydd ar yr Ynys a'r 4 prif flaenoriaeth i gyflawni hyn. |

| **Cam 1: Y Cefndir** | | |
|---|---|---|
| 4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu? | Gwasanaethau Tai- Uned Strategol, Polisi a Chomisynu | |
| 5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma? | Rheolwr Strategol, Polisi a Chomisynu | |
| 6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma? | Uned Strategol, Polisi a Chomisynu | |
| 7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Strategaeth Tai 2022-27<br><br>Mae'r Strategaeth Dai'n helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Gorfforaethol | |
| 8 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu | Ydi |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | Ydi |
| | Meithrin perthynas dda | Ydi |
| | Diogelu hyrwyddo hawliau dynol | Ydi |
| 9 - Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1. | ydi | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| 10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?<br><br>**Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas(gweler atodiad 1). | Holl ddinasyddion Ynys Môn o bosib, ond yn enwedig y rheini sy'n fregus ac / neu sy'n cael trafferth i gwrdd â'u hanghenion tai ar y farchnad agored. Mae grwpiau y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt yn cynnwys pobl hŷn, pobl gydag anableddau a'r rheiny sydd wedi eu heffeithio gan amddifadedd cymdeithasol. |

| **Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** | |
|---|---|
| 11 - A yw y cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Bydd yn annog i bobl aros o fewn eu cymunedau ac ar yr Ynys |
| 12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Bydd yn cynnig cyfle i bobl aros o fewn eu cymunedau a chyfrannu yn lleol ar yr Ynys |
| 13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | |
| 14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Credwn y bydd |
| Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r **Canllawiau Asesu Effaith** corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:<br>• Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu<br>• Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;<br><br>**dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg**. Mae templed ar wahân ar gael ar MonITor. Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach . | |

| Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol?  Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd? | (Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 2).<br><br>Ni fyddai'r strategaeth yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol.<br><br>Dylai gefnogi Erthygl 8 – hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol drwy sicrhau llety digonol a phriodol ar gyfer pob aelwyd. |

| Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |
|---|---|---|
| 16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru lewyrchus | **yndi** |
| | Cymru gydnerth | **yndi** |
| | Cymru iachach | **yndi** |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | **yndi** |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | **yndi** |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **yndi** |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | **Bydd gwelliannau yn cael eu gwneud i dai** |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | Rhoddwyd holiadur i berchnogion tai gwag sydd yn sail ar gyfer dull byddem yn ymateb i dai gwag |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod. | Gwybodaeth am tai gwag |
| 19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | |

**Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda **– Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| **Y grwp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Oed | **Positif** | | |
| Anabledd | **Positif** | | |
| Rhyw | **Positif** | | |
| Newid Rhyw | **Positif** | | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | **Positif** | | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | **Positif** | | |
| Crefydd neu Gred | **Positif** | | |

| Y grwp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriadedd Rhywiol | **Positif** **Positif** | | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | **Positif** | | |
| | | | |
| Yr iaith Gymraeg | **Positif** | | |
| Hawliau Dynol | **Positif** | | |
| Unrhyw fater perthnasol arall | | | |
| Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol.  Os y daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grwp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod. | | | |

| **Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | **Effaith isel** | | |

**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Canlyniad 1: Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Canlyniad 2: Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Canlyniad 3: Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Canlyniad 4: Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)



| **Cam 4 – Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| 21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/au yng ngham 3). | **Dim newid mawr** |
| 22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd, | **Dim newid mawr** |
| 23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | **Dim newid mawr** |
| 24 - A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, | **Dim newid mawr** |

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | |
| 25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | |
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith |
| 27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Adolygu ar ol 2 flwydyn |



**Cam 5 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Atodiad 1 - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

## Beth yw'r Ddyletswydd?

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion garchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lleoedd** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Croestoriad** – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

## Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol.

**Mae canllawiau penodol o ran y Ddyletswydd hon ar gael ar wahân ar MonITor.**

**Atodiad 2 – Hawliau Dynol**

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth.  Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.  At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'.  Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Materion i'w hystyried o ran yr iaith Gymraeg**

Mae'r templed corfforaethol ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys cwestiynau penodol ynghylch effaith penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg (cwestiynau 11 i 14). Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw.

Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, Cynllun Strategol au, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;

**dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg.** Cwblhewch asesiad effaith ac atodwch y templed i'ch asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr un cynnig.

Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .

| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | **Cynllun Strategol Tai Gwag 2023-28** |
| **Pwy sydd yn cynnal yr asesiad yma?** | **Gwasanaeth Tai- Strategol, Comisiynu a Pholisi** |
| **Dyddiad cwblhau'r asesiad** | **Medi 2023** |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg



| **1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 1.1 A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Bydd<br>Mae Gwasanaethau Tai yn cynnig gwasanaeth dwyieithog ac yn gweithio gyda phartneriaid sydd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog |
| 1.2 A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>• A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Bydd, bydd bod deunydd sydd yn ymwneud gyda'r Cynllun Strategol hwn yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog |
| 1.3 A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg? | Bydd, mae adnewyddu tai yn golygu fod contractwyr lleol yn gallu cael gwaith a all greu cyfleoedd gwaith ar yr Ynys |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

| **1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?<br>• Sut caiff cyrhaeddiad ei fonitro a'i fesur? | |

| **2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 2.1 A fydd y maes gwaith yma'n cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd, yn unol â Pholisi'r Cyngor |
| 2.2 Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'i gynllunio mewn i'r cynnig?<br>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Cynllun Strategol ydyw |
| 2.3 A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br><br>• A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Cynllun Strategol ydyw |

Tudalen 65

| **2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br>• A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg ee busnesau? | |
| 2.4 A fydd y gwasanaeth Gymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?<br><br>• A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg a Saesneg?<br>• A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd, yn unol â Pholisi'r Cyngor |



| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| 3.1 A yw'r maes gwaith yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?<br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg?<br>• A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Mae'r Cynllun Strategol yn gyd fynd gyda'n Strategaeth Tai a'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg i hyrwyddo cyfleoedd i bobl allu aros o fewn eu cymuned ac ar yr Ynys drwy nifer o fentrau gwahanol.<br><br>Yn ôl y Cyfrifiad, gwelwyd gostyngiad o 27.1% yn y canran siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth rhwng 16-64 (sef oed gweithio), gostyngiad o 8% yn siaradwyr Cymraeg rhwng 3-15 oed; ond cynnydd o 16% yng nghanran siaradwyr Cymraeg dros 65 mlwydd oed. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar deuluoedd ifanc, annog siaradwyr Cymraeg sydd wedi symud i ffwrdd i ddychwelyd i'r ardal ac annog unigolion i ddysgu Cymraeg er mwyn o leiaf cynnal yr iaith. Mae darparu tai sydd ddigon fforddiadwy a sydd o'r math cywir i gyfarch yr angen yn yr ardal leol ac mewn Canolfan Gwasanaeth Lleol (sy'n leoliad cynaliadwy i fyw ynddo) yn ffordd bwysig o wneud hyn. |
| 3.2 A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg? | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Cynllun Strategol ydyw |

| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| • A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg?<br>• A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br>• A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? Ee darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?<br>• A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith - ee gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb? | |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, Cynllun Strategol au a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 4.1 Polisiau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at yr uchod? | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Cynllun Strategol ydyw |
| 4.2 Cynllun Strategol au iaith Gymraeg perthnasol:<br><br>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Cynllun Strategol | Bydd, gan gynnig cyfleoedd i bobl gael mynediad i dai o fewn eu cymunedau ac ar yr Ynys. Gweler 3.1 uchod |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, Cynllun Strategol au a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016?<br><br>• Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | |

| **5 – Yr effeithiau sydd wedi cael eu nodi a'u hasesu** | |
|---|---|
| 5.1 Pa effeithiau rydych chi wedi'u nodi (hy crynodeb o'r atebion i'r cwestiynau uchod), ynghyd â thebygolrwydd a difrifoldeb/arwyddocâd tebygol yr effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau o ran y Gymraeg? Rhowch fanylion am fesurau lliniaru/opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol: | |
| Yr effeithiau cadarnhaol: | Cyfle i bobl gael mynediad i dai ar yr Ynys drwy nifer o ymyraethau |
| Yr effeithiau negyddol: | Dim effeithiau negyddol wedi eu hadnabod |
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith? | Bydd unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu mewn perthynas a'r Cynllun Strategol yn cael ei ddarparu'n Gymraeg yn unol a safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor. |
| Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd i ategu'ch asesiad: | Data Cyfrifiad 2011 am nifer siaradwyr Cymraeg fesul oedran. |

| 6 - Ymgynghori | |
|---|---|
| 6.1 Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg?<br><br>Mae canllawiau wedi'u cynnwys mewn rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar yr effeithiau positif ac andwyol ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.  Yn eich barn chi, a ydym wedi methu rhywbeth? |
| 6.2 Gyda phwy rydych chi'n ymgynghori?<br>Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb? | Ymgynghori gyda pherchnogion tai gwag |
| 6.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd? | Dim newid |

| 7 – Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol,  a monitro parhaus | |
|---|---|
| 7.1 Dylech grynhoi'ch cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.<br><br>**Bydd angen cyfeirio at y crynodeb yma yn y templed asesiad effaith ar gydraddoldeb (Cam 4 – canlyniad yr asesiad).** | Dim effaith negyddol wedi ei adnabod |

| **7 – Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus** | |
|---|---|
| 7.2 Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus tra bydd y polisi ar waith? | **Dylid defnyddio'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y templed asesu effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad.** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 21 Tachwedd 2023 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddaru Aelodau ar gynnydd hyd yma ar ein siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Douglas Fowlie |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng Gary Pritchard, Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai<br>Cyng Alun Roberts, Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Arwel Wyn Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Emma Edwards, Rheolwr Busnes, Gwasanaethau Oedolion<br>01248 751887<br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Darparu trosolwg o'r cynnydd diweddar o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>**Diben yr adroddiad yw tynny sylw at y cynnydd yn y:**<br>• **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**<br>• **Gwasanaethau Oedolion.**<br><br>**Argymhellion:**<br>1. **Cynnig sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bod y cynnydd parhaus a wnaed gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhesymol ac amserol**<br>2. **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod cynnydd a chyflymder gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn amserol a phriodol.** |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol gyda Chynllun y Cyngor: 2023-2028 - mae Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn un o'r 6 amcan allweddol. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-** |

**3.1** Yr effaith mae'r mater wedi'i gael ar unigolion a chymunedau **[canolbwyntio ar gwsmeriaid/dinasyddion]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[canolbwyntio ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[canolbwyntio ar risg]**
Rheolir ac adolygir risgiau yn rheolaidd o fewn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gyda'n Swyddog Yswiriant Corfforaethol ac archwilwyr mewnol ac allanol, a cheisir rhoi sicrwydd i aelodau ynghylch y gwelliannau a wnaed.

**3.4** Sgriwtini yn ymgymryd â'r rôl o fonitro perfformiad neu sicrhau ansawdd **[canolbwyntio ar berfformiad ac ansawdd]**
Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi sicrwydd i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini ein bod wedi datblygu proses Sicrhau Ansawdd, sydd wedi cael ei chydnabod gan archwiliad Adolygiad Gwerthuso Perfformiad AGC.

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Tymor hir
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cyfraniad

**[canolbwyntio ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon gyda chyfeiriad y siwrnai a chyflymder y cynnydd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol?
2. Mae'r adroddiad yn amlygu meysydd o arfer dda yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a gydnabyddir yn genedlaethol. Pa drefniadau sydd mewn llaw i gydnabod y ffrydiau gwaith hyn yn y Gwasanaeth?
3. Pa ffrydiau gwaith fydd yn flaenoriaeth i'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol dros y cyfnod nesaf?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**<u>Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:</u>**

1. **Ynys sy'n Ymwybodol o Drawma**

Mae gwaith yn parhau mewn perthynas â'n nod i Ynys Môn ddod yn Ynys sy'n Ymwybodol o Drawma. Rydym yn parhau i hyfforddi staff a phartneriaid yn y maes hwn a byddwn yn rhoi cynnig ar gynllun hyfforddi cymunedau yn ystod 2023-25. Rydym hefyd wedi cael llwyddiant gyda'n cynnig i'r Gronfa Ffyniant Bro mewn perthynas â chefnogi'r strategaeth hon.

Yn ychwanegol at hyn, bu i Iechyd Cyhoeddus Cymru ymweld ag Ynys Môn ym mis Gorffennaf er mwyn cynnal astudiaeth achos manwl ar arfer effeithiol ar

draws y maes addysg, y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Gofalwr Maeth a Phartneriaid. Bydd y canllaw arfer da yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref, ac Ynys Môn yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru fydd yn cael ei chrybwyll fel awdurdod blaenllaw!

Gwnaethom hefyd gynrychioli'r awdurdod lleol yn ystod digwyddiad Ymwybyddiaeth o Drawma cenedlaethol yng Nghaerdydd ar 24 Ebrill 2023, gan ddangos y cynnydd ar Ynys Môn a'r effaith hyd yma.

**2. Model Ysgolion Rhithiol**

Cyflwynodd Syr Alasdair McDonald a Sue Roberts eu trosolwg eu hunain o'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma gan Gyngor Môn mewn panel Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd diweddar. Yn dilyn hyn, bu i Syr Alasdair hwyluso gweithgor gydag Uwch Reolwyr o'r Gwasanaethau Addysg a Phlant a Theuluoedd gan edrych ar y gwasanaeth integredig.

Bydd gwaith pellach yn cael ei gwblhau yn ystod y chwarter nesaf. Rydym hefyd wedi penodi Athro Ymgynghorol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i ymuno â'r gwasanaeth integredig a bydd ei gwaith yn canolbwyntio ar wella ansawdd cynlluniau addysg, cefnogi a darparu ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal.

**3. Gwobrau Rhagoriaeth Maethu 2023**

Mae Maethu Cymru Môn yn falch o fod wedi ennill dwy wobr yng Ngwobrau Rhagoriaeth Maethu 2023 gan y Rhwydwaith Maethu.

Rydym wedi cael llwyddiant yng nghategorïau "*The Fostering Network Award for Kinship Carers*" a "*The Fostering Network Award for a Social Work Team*".

Mae'r wobr Tîm yn eithriadol bwysig gan ein bod ni wedi cael ein nomineiddio gan Ofalwyr Maeth o Gymdeithas Gofal Maeth Ynys Môn, ac mae hyn yn cadarnhau bod Tîm Maethu Môn yn meddu ar berthynas weithio gryf gyda'n Gofalwyr Maeth.

Bydd cynrychiolwyr o'r tîm yn derbyn y Gwobrau ar 17 Hydref 2023 mewn digwyddiad yn Theatr Birmingham Repertory.

**4. Gwasanaeth Ieuenctid**

Dyma'r flwyddyn gyntaf i'n Gwasanaeth Ieuenctid gynnig gweithgareddau dros yr Haf ar Ynys Môn. Cynaliasom 120 o sesiynau (gydag amrywiaeth o weithgareddau) yn ardal ddaearyddol 5 ysgol uwchradd a Bryngwran, gyda nifer sylweddol o blant yn cymryd rhan dros fisoedd yr haf. Roedd y gweithgareddau'n amrywio o'r Celfyddydau Mynegol, Gemau, Chwaraeon a STEM, gyda'r plant yn paratoi eu cinio eu hunain. Dyma rai sylwadau gan y plant, "Roedd o'n ddiddorol ac yn cŵl", "Rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd ac yn edrych 'mlaen at

ddechrau yn fy ysgol uwchradd newydd”. Ariannwyd gweithgareddau’r haf drwy arian grant.

**<u>Gwasanaethau Oedolion:</u>**

5. **Ymgysylltu â Gwasanaethau Dydd ar gyfer Anghenion Dysgu**

Mae’r bobl hynny gydag Anghenion Dysgu, a’u teuluoedd, sy’n defnyddio Gwasanaethau Dydd yn ardal Caergybi wedi cael cyfle i fynegi eu barn am y gwasanaeth. Anfonwyd holiadur at bawb sy’n defnyddio’r gwasanaeth yn gofyn am eu barn ynghylch sut mae’r gweithgareddau wedi datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ers pandemig COVID, a sut yr hoffent i’r gwasanaeth ddatblygu yn y dyfodol. Defnyddir eu safbwyntiau i lywio cynigion ar gyfer datblygu’r gwasanaeth, a chynhelir ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigon cyn diwedd 2023.

6. **Contract Gofal Cartref**

Gyda’n partneriaid yn BIPBC, rydym wedi ail-dendro ein gofal cartref allanol yn gynharach eleni, yn unol â pharthau ein Tîm Adnoddau Cymunedol – Caergybi, Llangefni a Llanfair. O ganlyniad i’r gwerthusiad tendro, dyfarnwyd contract ar gyfer dau o’r tri parth. Byddwn yn gweithio gyda’n cydweithwyr mewnol ac allanol i adolygu ein hopsiynau o ran ardal Caergybi.

7. **Ymweliad gan Eluned Morgan, Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Pleser oedd croesawu Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Ganolfan Dementia Ynys Môn yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni (Capel Moreia). Cafodd y gweinidog gyfle i weld y datblygiad a chael blas ar y gweithgareddau sy’n digwydd yn y ganolfan. Cafwyd cyfle hefyd i drafod y weledigaeth ar gyfer y camau nesaf gydag uwch swyddogion o’r Cyngor Sir, aelodau etholedig a phartneriaid allweddol. Gweler y lluniau isod:







**8. Cymunedau Oed Gyfeillgar**

Ym mis Mehefin, cawsom gadarnhad fod Ynys Môn wedi ymuno â Rhwydwaith o Gymunedau a Dinasoedd Oed Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd.

Cynhaliwyd ail set o Fforymau Pobl Hŷn Lleol ym mis Mehefin ym Mrynsiencyn, Bodedern, Gwalchmai, Benllech, Llannerchymedd a Bodorgan, gyda chyfanswm o 80 yn bresennol. Mae fforymau'n gyfle i bobl weld gwybodaeth, rhannu unrhyw rwystrau sy'n eu hwynebu, a gwrando ar gyflwyniadau gan siaradwyd gwadd. Ymhlith y siaradwyr ym mis Mehefin roedd Môn Actif, Medrwn Môn, Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Age Cymru HOPE, a'r gwasanaeth llyfrgell.

Cynhaliwyd Fforwm Pobl Hŷn yr Ynys Gyfan cyntaf yn M-Sparc, Gaerwen ar 4 Gorffennaf. Roedd 58 yn bresennol ac yn cynrychioli dros 30 o grwpiau a sefydliadau gwahanol sy'n cefnogi pobl hŷn ar Ynys Môn. Cyfathrebu ac Ymgysylltu oedd thema'r Fforwm, a chafwyd gyflwyniadau gan Cymunedau Digidol Cymru a Medrwn Môn.

**9. Argraffiad 1 Cylchlythyr Ynys Môn Oed Gyfeillgar**

Rydym wedi cyhoeddi'r argraffiad cyntaf o Gylchlythyr Ynys Môn Oed Gyfeillgar, sy'n llawn gwybodaeth ddefnyddiol i helpu pobl i heneiddio'n dda ar Ynys Môn.

**<u>Gwasanaethau Cymdeithasol:</u>**

**10. Adroddiad Cwynion Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23**

Gofynnir i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion statudol dan Reoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2014, a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014.

Mae rhwymedigaeth pellach i baratoi Adroddiad Blynyddol ar weithredu'r Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol yn yr Awdurdod Lleol er mwyn craffu arno a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol gyda chwynion a dderbynnir gan y rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.


Rhannwyd yr adroddiad gyda Panel Sgriwtini'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 12 Hydref 2023 i'w herio a'i drafod, ac yn hynny o beth, mae'n cael ei rannu gyda'r Panel ar gyfer adolygiad a gwybodaeth bellach.

**11. Capasiti a Staffio**

Mae recriwtio staff cartrefi gofal, staff gofal cymdeithasol a staff preswyl dal yn her. Mae hyn hefyd yn wir mewn Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru ac rydym yn parhau i weithio gyda Choleg Menai a chynnal digwyddiad recriwtio o fewn y gymuned i geisio mynd i'r afael â'n hanghenion recriwtio.

**12. Galw ac Ariannu**

Bu cynnydd sylweddol yn y galw am Wasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion ac mae'r galw hwnnw'n cynyddu.




Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i edrych ar sut y gallwn reoli'r galw'n wahanol, fodd bynnag, gan fod y galw am wasanaethau yn statudol, mae'n anodd gweld sut y gallwn ateb y galw cynyddol yn wahanol.

Hefyd, rydym ni (fel pob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru) yn rhagweld gorwariant yn ystod 2023/24. Mae'r cynnydd yn y galw, cymhlethdod yr achosion a chwyddiant a chostau gwasanaethau i gyd yn cael effaith ac yn cyfrannu at y gorwariant. Rydym yn gwneud defnydd llawn o unrhyw arian grant ac yn ystyried darparu gwasanaeth lle bo modd i weld a oes gwahanol ffydd a allai fod yn gost-effeithiol o ran darparu gwasanaethau.

| |
|---|
| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| **6.1 Effaith posibl ar grwpiau sydd wedi'u diogelu dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010** |
| Mae EIA wedi cwblhau'r holl brosiectau ffurfiol yn unol â Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru. |
| **6.2 Effaith posibl ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Mae ein holl wasanaethau'n seiliedig ar lesiant pobl Ynys Môn. |
| **6.3 Effaith posibl ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i drin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg** |
| Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, fel yr adroddiad hwn. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| |
|---|
| **8 – Atodiadau:** |
| **Adroddiad Cwynion Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23:** |

| |
|---|
| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| |

ATODIAD 1

# Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion

***'Gwrando ar Gwynion a Dysgu yn eu sgil'***

# GWEITHDREFN SYLWADAU A CHWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2022/23

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol**

Mae'r adroddiad hwn yn dangos yn ystod 2022/23:

- Bod gostyngiad yn nifer y sylwadau / pryderon negyddol a gofnodwyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 65 i 55).
- Gostyngiad yn nifer y cwynion a gofnodwyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Cam 1 o 41 i 27, Cam 2 o 9 i 6).
- Gostyngiad yn nifer y canmoliaethau a gofnodwyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 229 i 192).
- Mae'r ddau wasanaeth yn parhau i ddadansoddi'r pwyntiau dysgu yn sgil y cwynion a'r canmoliaethau er mwyn cymryd camau i wella gwasanaethau ac ymarfer ar gyfer y dyfodol, megis adolygu protocolau, polisïau a systemau, hyfforddi staff, a gosod disgwyliadau o ran ymarfer.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y ffordd y gweithredwyd Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion yn ystod y cyfnod o Ebrill 2022 tan ddiwedd mis Mawrth 2022.

1.2 Mae'r swydd Rheolwr Gofal Cwsmeriaid, Cwynion a Gwybodaeth yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn swydd newydd a gafodd ei llenwi ar 27 Chwefror 2023. Pwrpas y rôl yw sicrhau trefn rheoli cwynion a gwybodaeth effeithiol o fewn y gwasanaeth yn unol â gofynion statudol a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol yr awdurdod lleol. Fel y swyddog cwynion dynodedig, mae'r swyddog yn aelod o Uned Diogelu ac Ansawdd Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd yn gyfrifol am gydlynu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r Swyddog Cwynion yn atebol i Gyfarwyddwr yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn cael ei reoli ar ran y Cyfarwyddwr gan y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu ac Ansawdd.

1.3 Mae'r Swyddog Cwynion yn gyfrifol am:

- Gydlynu trefniadau'r gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion.
- Cofnodi cwynion a sylwadau cadarnhaol a negyddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.
- Monitro'r ymateb i gwynion o fewn amserlenni a bennir mewn rheoliadau ar gyfer delio â chwynion o dan Gam 1 y weithdrefn.
- Cydlynu ymchwiliadau gan ymchwilwyr annibynnol i gwynion ffurfiol o dan Gam 2 y weithdrefn.
- Sicrhau bod ymateb ysgrifenedig ffurfiol ynghyd â chopi o adroddiad yr ymchwiliad annibynnol (neu grynodeb o'i ganlyniad) yn cael ei anfon at yr achwynydd o fewn yr amserlen o 25 diwrnod gwaith o dan Gam 2 y weithdrefn, gan roi gwybod i'r achwynydd os rhagwelir unrhyw oedi.
- Cydlynu ymatebion gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol i ymholiadau a wnaed gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau

Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chwynion am faterion Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Monitro Cynlluniau Gweithredu i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu yn sgil y cwynion er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau.
- Datblygu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion fewnol.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael er mwyn hwyluso mynediad i'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.
- Darparu hyfforddiant a chymorth i hyrwyddo dealltwriaeth o swyddogaeth y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ymhlith staff yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 2. Sylwadau Cadarnhaol a Negyddol

### 2.1 Sylwadau Cadarnhaol

2.1.1 Cofnodwyd cyfanswm o 192 o sylwadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn (67 ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a 125 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion). Mae hwn yn ostyngiad o’i gymharu â’r cyfanswm o 229, a gofnodwyd yn 2021/22: a gwelwyd y gostyngiad ar draws y ddau wasanaeth.

2.1.2 O'r 67 o sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn 2022/23, roedd 19 gan weithwyr proffesiynol y tu allan i'r Gwasanaeth, tra bod 48 gan ddefnyddwyr gwasanaeth, eu cynrychiolwyr neu aelodau o'u teulu, neu ofalwyr maeth. O'r 125 o sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd gan yr adran Gwasanaethau Oedolion, roedd 16 ohonynt gan weithwyr proffesiynol y tu allan i'r Gwasanaeth, tra bod 109 gan ddefnyddwyr gwasanaeth neu aelodau o'u teulu. Mae'r sylwadau cadarnhaol yn cael eu categoreiddio yn y tabl isod.

**Tabl 1**

| SYLWADAU CADARNHAOL | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Môn 1 | 6 | Gofal Preswyl | 67 |
| Môn 2 | 3 | Timau Adnoddau Cymunedol | 30 |
| Môn 3 | 3 | Tîm Anableddau Dysgu | 6 |
| Môn 4 | 2 | Teulu Môn | 2 |
| Môn 5 | 4 | Cyllid Cleientiaid | 1 |
| Môn 6 | 4 | Gofal Môn ac Ail-alluogi | 16 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tîm Cefnogi Addysg a Lles Integredig | 2 | Uned Ansawdd a Diogelu | 1 |
| Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Integredig / Teuluoedd Cryf | 11 | Sylwadau cadarnhaol am fwy nag un tîm neu'r Gwasanaeth yn gyffredinol | 3 |
| Gwasanaethau Plant Arbenigol | 1 | | |
| Tîm Lleoli Plant | 2 | | |
| Gwasanaethau Cymorth Cymunedol | 1 | | |
| Tîm o Amgylch y Teulu | 15 | | |
| Uned Diogelu ac Ansawdd | 5 | | |
| Cartrefi Clyd | 1 | | |
| Sylwadau cadarnhaol am fwy nag un tîm neu'r gwasanaeth yn gyffredinol | 7 | | |
| **Cyfanswm** | **67** | **Cyfanswm** | **125** |

2.1.3 Dyma’r themâu a nodwyd:

- Sylwadau cadarnhaol iawn gan aelodau unigol o staff.
- Gwerthfawrogiad o wasanaethau cefnogol a defnyddiol.
- Mae gwasanaethau'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar/ar gyfer teuluoedd.
- Gwerthfawrogi’r cyfleoedd dysgu a ddarperir gan yr adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Gwaith o ansawdd uchel mewn perthynas ag achosion llys.
- Staff yn datblygu perthynas gadarnhaol gyda defnyddwyr gwasanaeth.
- Gofal a charedigrwydd o ansawdd uchel a ddangosir mewn cartrefi preswyl.
- Gofal a charedigrwydd o ansawdd uchel a ddangosir gan Gofal Môn ac Ail-alluogi

2.1.4 Enghreifftiau o sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd:

*“Roedd y teulu'n teimlo bod y ffordd y cynhaliodd y [Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol] y gynhadledd a'r ffordd y siaradodd â'r plentyn wedi gwneud*

*gwahaniaeth enfawr i'w hyder a'i allu i gymryd rhan yn y broses. Am y tro cyntaf, roedd yn gallu rhannu ei feddyliau a'i deimladau gyda phobl eraill. Roedd y teulu'n teimlo mor falch ohono ar ôl y gynhadledd hon ac yn teimlo bod y [Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol } wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Dywedodd y plentyn yn ddiweddarach ei fod yn teimlo bod y [Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol] wedi gwrando arno, a'i fod yn teimlo ei fod wedi'i warchod wrth allu rhannu ei farn.* ***Uned Diogelu ac Ansawdd***

*Mae'r teulu hefyd wedi canmol y [Gweithiwr Cymdeithasol]. Dywedodd y teulu, am y tro cyntaf, fod y plentyn yn teimlo y gallai uniaethu â gweithiwr proffesiynol, oherwydd cymerodd [Gweithiwr Cymdeithasol] yr amser i wrando arno, ar ei deimladau a'i brofiadau, a'i gymryd o ddifrif ac roedd hyn yn gwneud iddo deimlo ei fod wedi cael cyfle i roi ei achos.* ***Gweithiwr Cymdeithasol Plant a Theuluoedd***

*Dywedodd y teulu fod hyder y plentyn wedi datblygu'n sylweddol ac roedden nhw'n teimlo bod gweithwyr proffesiynol fel y [Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol] a'r [Gweithiwr Cymdeithasol] wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Meddai'r teulu 'allwn ni ddim canmol digon arnyn nhw, rydyn ni'n credu eu bod nhw'n anhygoel' -* ***Uned Diogelu ac Ansawdd a Gweithwyr Cymdeithasol Plant a Theuluoedd***

*"Rydych chi wedi gwneud gwahaniaeth a chael ein bywydau yn ôl ar y trywydd iawn. Rydych chi wedi ein helpu i gyflawni ein nodau a goresgyn ein pryder trwy fod mor broffesiynol ... Rydych chi wedi gwneud i ni deimlo'n falch o'n hunain, o'r sefyllfa rydym ni ynddi rŵan o'i gymharu â phan wnaethoch chi ymweld â ni am y tro cyntaf. Mae gennych agwedd gyfeillgar tuag at deuluoedd rydych chi'n eu cefnogi ac rydych chi'n eu deall... Mae gennych ffordd o dawelu rhywun mewn sefyllfa sy'n llawn straen. Rwyf wedi cael profiad o hyn ac fe wnaethoch i mi deimlo'n hyderus eto. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth a'ch ffydd ynom ni." -* ***Teuluoedd Cryf***

*"Roedd [person ifanc] eisiau i mi ddweud wrth y [Swyddog Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal] ei fod yn hynod ddiolchgar am ei holl waith caled o ran ei addysg ac am ei gael yn ôl i'r ysgol. Roedd yn llawn canmoliaeth a gofynnodd i mi drosglwyddo'r neges." -* ***Tîm Cymorth Addysg a Lles Integredig***

*"Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi bod yn anhygoel. Mae Gweithiwr Cymorth y Tîm o Amgylch y Teulu wedi treulio amser yn trafod ac yn ein cynghori sut i helpu bywyd teuluol. Mae hi hefyd wedi rhoi cefnogaeth anhygoel i'n merched" -* ***Tîm o Amgylch y Teulu***

*"Gofynnodd y fam i ni roi adborth i ddweud bod y gwasanaeth y mae hi wedi'i dderbyn gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod y cyfnod hwn o ymyrraeth wedi creu argraff arni. Mae hi wedi cael ei phlesio'n arw gan lefel y gefnogaeth gan y Gweithiwr Cymdeithasol" -* ***Gweithiwr Cymdeithasol Plant a Theuluoedd***

*"Roeddwn i am roi gwybod i chi faint dw i'n gwerthfawrogi'r ffordd roeddech chi'n gofalu amdano [defnyddiwr gwasanaeth]... Dw i'n gwybod ei bod hi'n hapus yn Garreglwyd. Roedd yn gyffyrddiad hyfryd bod aelod o staff yn bresennol yn ei hangladd.... Roedd gennych chi amser i siarad ar y ffôn bob amser a gwnaethoch fy ymweliadau yn ystod Covid yn haws"-* ***Garreglwyd***

*"Gallaf ddweud yn onest mai fi yw'r person mwyaf lwcus i gael Gofalwyr Môn... Rwyf wedi cael perthynas waith wych gyda [Cydlynydd Gofal Cartref] ac rwy'n teimlo ei bod hi bob amser wedi gwneud ei gorau glas i'm helpu... Mae [Cydlynydd Gofal Cartref] bob amser wedi bod yno i helpu a chynghori a gallaf weld ei bod yn gweithio'n eithriadol o galed a'i bod wedi ymroi i'w swydd a'r tîm. Mae'r gofalwyr i gyd yn dda iawn yn eu swyddi, ac yn gyfeillgar ac yn barod iawn i helpu, ond byddwn wrth fy modd yn rhoi rhywfaint o gydnabyddiaeth bersonol i [2 ofalwraig].*

*Mae'r ddwy ferch yma yn glod enfawr i'ch sefydliad, rwy'n siŵr eu bod wedi gwrando ar bob darn o hyfforddiant dementia y maent wedi'i dderbyn, maen nhw'n gwybod yn union sut i drin mam i gael y gorau ohoni wrth ddarparu gofal personol... Mae'n bleser cerdded i mewn i'r tŷ a'u clywed yn canu caneuon ac emynau Cymraeg gan eu bod yn ymwybodol bod y sain yn ei thawelu hi ac o'r hyn rwy'n ei ddarllen am bobl sy'n byw gyda dementia maen nhw'n dal i allu rhyngweithio ychydig pan maen nhw'n clywed alawon ... gan fod [y ddwy] wedi bod yn dod i'r tŷ ers blynyddoedd maen nhw'n deall yn union sut i'w chael i ymlacio mwy fel eu bod nhw'n gallu cario 'mlaen gyda'u gwaith yn rhwydd. Mae'n hyfryd gweld wyneb mam yn goleuo ac yn adnabod y ddwy pan maen nhw'n dechrau sgwrsio â hi, ac maen nhw'n llwyddo i wneud iddi chwerthin yn rheolaidd... Gallaf ddweud yn onest bod y ddwy ferch yma wedi gwneud fy mywyd fel y "gofalwr" di-dâl gymaint yn haws dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r swydd iddyn nhw yn llawer mwy na swydd gyflogedig yn unig, maen nhw wedi dod yn rhan o fy nheulu estynedig, ac rwy'n berffaith siŵr pan fyddant yn gadael tŷ mam ac yn mynd at eu cleient nesaf eu bod yn ymddwyn yn union yr un fath. Hoffwn ddweud bod y ddwy ferch yma'n anhygoel... Pe bai'r fath beth â thlws "Gofalwr y Flwyddyn" byddai'r ddwy ferch anhygoel yma yn ennill heb drafferth. Diolch i'ch sefydliad am yr holl help rydw i wedi'i gael, mae'n cael ei werthfawrogi'n fwy nag y gallwch chi ei gredu" -* ***Gofal Cartref Môn***

"*Dim ond nodyn bach i longyfarch y staff Ail-alluogi. Mae'r genod i gyd di bod yn gefn enfawr i ni fel teulu. Mae'r gofal prydlondeb ers 7 wythnos i fy rhieni wedi bod yn arbennig !!! Mae'r genod i gyd wedi gwneud mwy na'r gofyn ac mae'r gofal yn werth chweil !!!! A wnewch chi plîs roi'r neges i'r genod a llongyfarchiadau am wasanaeth a staff mor, mor arbennig o ofalus, clên a barod i helpu. Diolch o galon" –* ***Ail-alluogi***

*"Roeddwn i eisiau diolch i chi am sicrhau bod [defnyddiwr gwasanaeth] yn cael yr ansawdd gofal yr oeddwn i ei eisiau iddi ac yr oedd hi'n ei haeddu. Rwy'n gwybod eich bod wedi gwneud cryn ymdrech i'w symud ac i wneud yn siŵr ei bod yn ymgartrefu mewn lle mor wych. Dw i'n ddiolchgar iawn. Nid yn unig dros y [defnyddiwr gwasanaeth], roedd yn golygu y gallwn fwynhau'r amser a dreuliais gyda*

*[defnyddiwr gwasanaeth], gan wybod ei bod mewn lle da. Diolch eto"- **Anabledd Dysgu***

## 2.2 Sylwadau Negyddol / Pryderon

2.2.1 Weithiau mae'n bosibl datrys pryder erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf. Yn yr achos hwn, nid oes angen ei gofnodi fel cwyn o dan Gam 1 o’r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion. Hefyd, gall y defnyddiwr gwasanaeth ddweud nad yw'n dymuno gwneud cwyn swyddogol o dan Gam 1 neu Gam 2 o'r un Weithdrefn.

2.2.2 Cofnodwyd cyfanswm o 55 o sylwadau / pryderon negyddol yn ystod y flwyddyn, 32 ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a 23 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Roedd hyn yn ostyngiad ar gyfanswm y flwyddyn flaenorol, sef 65.

2.2.3 Mae rhai o'r cwynion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ymwneud â phenderfyniadau diogelu a wnaed gan y Gwasanaeth ac efallai eu bod yn ymwneud â phenderfyniadau nad oedd yr achwynydd yn cytuno â nhw. Er y bydd y Gwasanaeth yn ymchwilio i bryderon fel hyn os ydynt yn gymwys, dylid bod yn ofalus wrth gymharu grwpiau, timau ymarfer a gwasanaethau, oherwydd natur amrywiol y gwaith y maent yn ei wneud.

2.2.4 Ar adegau eraill, derbynnir pryderon sy'n ymwneud â materion hanesyddol, neu faterion eraill nad ydynt yn gymwys i ymchwilio iddynt o dan y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion, er y gellir darparu ymateb o ryw fath o hyd weithiau os yw'n briodol. I rai pryderon, nid yw'n bosibl ymateb o dan y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion pe byddai gwneud hynny'n niweidio achos cyfreithiol parhaus neu ymholiadau amddiffyn plant / oedolion. Felly, mae'r rhain wedi'u cofnodi fel sylwadau negyddol, ond hysbysir yr achwynydd o'r hawl i ailgyflwyno cwyn unwaith y bydd yr achos/ymholiadau cyfredol wedi dod i ben os ydynt yn dymuno hynny.

2.2.5 Mae'r 55 sylw negyddol wedi'u categoreiddio yn Nhabl 2 isod. Ar gyfer rhai timau/grwpiau ymarfer, ni chofnodwyd unrhyw sylwadau / pryderon negyddol.

**<u>Tabl 2</u>**

| SYLWADAU / PRYDERON NEGYDDOL | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Môn 1 | 1 | Teleofal | 2 |
| Môn 2 | 2 | Timau Adnoddau Cymunedol | 9 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Môn 3 | 3 | Gofal Preswyl | 2 |
| Môn 4 | 7 | Sylwadau negyddol am fwy nag un tîm / dim un tîm wedi'i enwi | 1 |
| Môn 5 | 6 | Anableddau Dysgu | 4 |
| Môn 6 | 1 | Teulu Môn | 3 |
| Gwasanaethau Cymorth Cymunedol | 1 | Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol | 1 |
| Rheolaeth | 1 | Uned Ansawdd a Diogelu | 1 |
| Teulu Môn | 2 | | |
| Gwasanaethau Plant Arbenigol | 5 | | |
| Sylwadau negyddol am fwy nag un tîm / dim un tîm wedi'i enwi, gan gynnwys pryderon hanesyddol | 3 | | |
| **Cyfanswm** | **32** | **Cyfanswm** | **23** |

## 3. Cwynion Cam 1 – Datrysiad Lleol

3.1 Yn Nhabl 3 isod crynhoir nifer y cwynion a dderbyniwyd dros y deng mlynedd diwethaf gan yr adran Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd o dan Gam 1 a Cham 2 o Weithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol.

**<u>Tabl 3</u>**

| Blwyddyn | Gwasanaethau Oedolion Cam 1 | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cam 1 | Cyfanswm Cam 1 | Gwasanaethau Oedolion Cam 2 | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cam 2 | Cyfanswm Cam 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 24 | 26 | **50** | 5 | 6 | **11** |
| 2014/15 | 17 | 20 | **37** | 2 | 5 | **7** |
| 2015/16 | 24 | 29 | **53** | 4 | 1 | **5** |
| 2016/17 | 8 | 46 | **54** | 2 | 3 | **5** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | 13 | 38 | **51** | 4 | 5 | **9** |
| 2018/19 | 14 | 30 | **44** | 6 | 2 | **8** |
| 2019/20 | 5 | 32 | **37** | 0 | 7 | **7** |
| 2020/21 | 6 | 18 | **24** | 0 | 6 | **6** |
| 2021/22 | 17 | 24 | **41** | 4 | 5 | **9** |
| 2022/23 | 10 | 17 | **27** | 1 | 5 | **6** |

3.2 Mae Tabl 3 yn dangos bod nifer y cwynion a gofnodwyd o dan Gam 1 o'r weithdrefn wedi gostwng o'i gymharu â nifer y cwynion a dderbyniwyd y flwyddyn flaenorol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

3.3 Roedd gostyngiad yn nifer y cwynion Cam 2 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y cwynion Cam 2 a gofnodwyd ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigurau dros y 10 mlynedd diwethaf ar gyfer cwynion Cam 2 yn dangos bod y ffigurau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae cysondeb yn y ffaith bod y rhan fwyaf o gwynion wedi'u datrys o dan Gam 1.

3.4 O'r 27 cwyn Cam 1 a dderbyniwyd, cafodd pob un ond un eu cydnabod naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig o fewn 2 ddiwrnod gwaith.

3.5 Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y gwasanaethau mewn perthynas ag ymateb i Gwynion Cam 1 o fewn amserlenni statudol. Disgwylir i achwynwyr gael cynnig trafodaethau i ddatrys eu cwynion o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cydnabod y gŵyn. Dylid anfon llythyr ymateb i gadarnhau telerau datrys eu cwyn o fewn 5 diwrnod gwaith i'r drafodaeth honno.

**Tabl 4**

| | **Gwasanaethau Plant** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Trafodaeth** | **Ymateb Ysgrifenedig** | **Trafodaeth** | **Ymateb Ysgrifenedig** |
| **Canran o fewn yr amserlen** | 88%<br><br>(15 allan of 17) | 71%<br><br>(12 allan o 17)<br><br>Cytunwyd ar amserlen estynedig gyda'r achwynydd ar gyfer 3 o'r 5 ymatebion a anfonwyd y tu allan i'r amserlen. | 50%<br><br>(5 allan o 10) | 60%<br><br>(6 allan o 0)<br><br>Cytunwyd ar amserlen estynedig gyda'r achwynydd ar gyfer 2 o'r 4 ymateb a anfonwyd y tu allan i'r amserlen. |

3.7 Ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mae'r data'n dangos bod: -

- gostyngiad yng nghanran y trafodaethau a gynigiwyd o fewn yr amserlen (o'i gymharu â 92% y flwyddyn flaenorol)
- cynnydd yng nghanran yr ymatebion ysgrifenedig a anfonwyd o fewn yr amserlen (o'i gymharu â 67% y flwyddyn flaenorol).

Ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, mae'r data'n dangos: -

- gostyngiad yng nghanran y trafodaethau a gynigiwyd o fewn yr amserlen (o 94% y flwyddyn flaenorol)
- gostyngiad yng nghanran yr ymatebion ysgrifenedig o fewn amserlen yr (o 65% y flwyddyn flaenorol).

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod yr angen i wella'r ffigurau hyn a phwysigrwydd cyrraedd terfynau amser ac ymrwymo i gyrraedd y targedau angenrheidiol. Gall fod yn heriol cwblhau ymateb ysgrifenedig llawn o fewn 5 diwrnod gwaith i'r drafodaeth gyda'r achwynydd, yn enwedig os yw'r gŵyn yn gymhleth iawn, os yw'r achwynydd wedi codi materion newydd yn ystod y drafodaeth, neu fod angen i ni ofyn am wybodaeth gan asiantaethau neu wasanaethau eraill. Weithiau efallai y bydd mwy nag un gwasanaeth neu asiantaeth yn cymryd rhan, sy’n gallu ei gwneud yn anos cadw at yr amserlenni. Pan fydd yr ymateb llawn yn cael ei ohirio oherwydd bod angen gwybodaeth gan asiantaethau neu wasanaethau eraill, gellir anfon ymateb ysgrifenedig dros dro, neu amserlen estynedig y cytunir arni gyda'r achwynydd. O ran anfon ymateb o fewn yr amserlen, mae'n bwysig nodi mai dim ond un agwedd yw hon o ymatebion / gofal o ansawdd da i gwsmeriaid sydd wedi gwneud cwyn. Disgwylir i ymatebion Cam 1 gynnwys canfyddiadau clir mewn perthynas â phob pwynt cwyno allweddol ac ystyried unrhyw bwyntiau dysgu ar gyfer y Gwasanaeth a'r camau i'w cymryd i ddatrys materion i'r achwynydd ac osgoi achosion tebyg rhag cael eu hailadrodd, lle bo hynny'n bosibl.

3.7 Mae Tabl 5 yn dangos dadansoddiad o'r meysydd gwasanaeth ar gyfer cwynion a dderbyniwyd o dan Gam 1 o Weithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion. Ni dderbyniodd rhai timau/grwpiau ymarfer unrhyw gwynion Cam 1.

**Tabl 5**

| **CWYNION CAM 1** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Môn 1 | 1 | Timau Adnoddau Cymunedol | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Môn 2 | 2 | Cwynion yn ymwneud â mwy nag un tîm | 1 |
| Môn 4 | 4 | Teulu Môn (SPOA) | 2 |
| Môn 5 | 3 | Cyllid Cleientiaid | 1 |
| Teuluoedd Cryf | 1 | Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol | 2 |
| Uned Gwella Ansawdd a Diogelu | 1 | | |
| Gwasanaethau Plant Arbenigol | 1 | | |
| Cwynion yn ymwneud â mwy nag un tîm | 4 | | |
| **Cyfanswm** | **17** | **Cyfanswm** | **10** |

3.8 Dyma themâu cwynion Cam 1 yn adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd:

- Cyfathrebu’n cael ei ystyried yn annigonol, yn amhriodol.
- Oedi ac anghysondebau o ran cefnogaeth
- Cywirdeb gwybodaeth

a’r pwyntiau dysgu a nodwyd:

- Yr angen i gyfathrebu’n ddigonol, yn glir a sensitif
- Cysondeb y gweithiwr cymdeithasol
- Cydymffurfio ag amserlenni statudol ar gyfer ymweliadau â phlant
- Prydlondeb o ran cymryd y camau angenrheidiol

3.9 Roedd rhai themâu a welwyd yn y cwynion Cam 1 am Wasanaethau Oedolion yn bryderon ynghylch:

- Cyfathrebu’n cael ei ystyried yn annigonol, yn negyddol.
- Oedi


a’r pwyntiau dysgu a nodwyd:

- Cyfathrebu clir, digonol gydag aelodau'r cyhoedd


3.10 Mae angen ystyried y themâu uchod fel themâu sy'n codi o nifer fach o gwynion, ac oherwydd hynny rhaid bod yn ofalus wrth ddod i'r casgliad bod y rhain yn faterion o bwys ar draws y gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'n bwysig dadansoddi unrhyw bwyntiau dysgu perthnasol o'r holl gwynion a dderbynnir. Mae adroddiadau chwarterol sy'n cynnwys y pwyntiau dysgu ar

gyfer gwasanaethau yn cael eu rhannu a'u trafod yng nghyfarfodydd rheolwyr yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn cyfrannu at yr Adroddiad Chwarterol ar Ansawdd Ymarfer Gwaith Cymdeithasol. Mae ymatebion Cam 1 hefyd yn nodi camau i'w cymryd i fynd i'r afael â materion a nodwyd, er mwyn rhoi'r dysgu ar waith, er enghraifft trafodir pwyntiau dysgu gyda gweithwyr perthnasol yn ystod sesiynau goruchwylio, trefnir hyfforddiant, atgoffir staff o ofynion perthnasol, neu cynhelir cyfarfod 'gwersi a ddysgwyd'.


3.11 Mae'r siart canlynol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r cwynion Cam 1 a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd gan rieni:





3.12 Mae'r siart canlynol yn dangos bod y rhan fwyaf o gwynion a dderbyniwyd gan Wasanaethau Oedolion gan deulu/ffrindiau sydd â chaniatâd y defnyddiwr gwasanaeth:




3.13 Mae'r siart canlynol yn dangos bod dros hanner y cwynion Cam 1 i Wasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cael eu cadarnhau'n rhannol neu'n llawn gan y rheolwyr a ymatebodd iddynt. Caiff rheolwyr eu hannog i ymchwilio i gwynion mewn ffordd ddadansoddol gan fyfyrio ar y gŵyn er mwyn gallu dysgu a gwneud gwelliannau perthnasol a rhoi ystyriaeth deg i farn yr achwynydd.




3.14 Mae'r siart canlynol yn dangos bod dros hanner y cwynion Cam 1 i Wasanaethau Oedolion wedi'u cadarnhau'n llawn neu'n rhannol.




## 4. Cwynion Cam 2

### 4.1 Trosolwg o Gwynion Cam 2

4.1.1 Mae Cam 2 o Weithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys ymchwiliad gan Ymchwilydd Annibynnol. Er bod y Gwasanaeth yn ceisio datrys cwynion yng Ngham 1, mae yna adegau pan na fydd hyn yn bosibl. Enghreifftiau o hyn yw achosion o gwynion mwy cymhleth neu pan fydd yr achwynydd wedi gofyn am gael mynd yn syth i Gam 2. Mae gan achwynwyr yr hawl i osgoi Cam 1 a gofyn am gael symud ymlaen yn syth i Gam 2 os ydynt yn dymuno hynny. Yn ystod 2022/23, mae ymchwiliadau Cam 2 wedi dechrau cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn ogystal â'r cyfweliadau ar-lein gyda’r Ymchwilydd Annibynnol.

4.1.2 Yn ystod 2022/23, cofrestrwyd cyfanswm o 5 cwyn o dan Gam 2. Roedd 4 ohonynt ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ac 1 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Ni chwblhawyd yr un o'r rhain o fewn yr amserlen o 25 diwrnod ac mae 1 ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn dal heb gael sylw oherwydd amgylchiadau'r teulu. Ymhlith y rhesymau eraill dros oedi mae'r amser a gymerir i benodi Ymchwilwyr Annibynnol a Phersonau Annibynnol priodol a threfnu iddynt gael copïau o gofnodion perthnasol; yr amser a gymerir i gynnal cyfarfod cychwynnol rhwng yr achwynydd a'r Ymchwilydd Annibynnol; p’un ai a yw’r partïon perthnasol ar gael; a chymhlethdod ymchwiliadau. Mewn achosion lle bu oedi, mae achwynwyr wedi cael gwybod am yr oedi a'r dyddiad y disgwylir i’r ymateb gael ei anfon.

4.1.3 Paratoir Cynlluniau Gweithredu yn dilyn ymchwiliadau Cam 2 os oes argymhellion yn adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol, i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, a bod ymarfer yn gwella. Mae ymchwiliadau Cam 2 i gwynion i Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn cynnwys trafodaeth gyda'r Person

Annibynnol ynghylch cynnwys y Cynllun Gweithredu, os oes Person Annibynnol wedi'i benodi. Mae Cynlluniau Gweithredu Cam 2 yn cael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth ac yna'n cael eu monitro nes bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

### 4.2 Cwynion Cam 2 i Wasanaethau Plant a Theuluoedd

4.2.1 Roedd 4 o’r cwynion am Wasanaethau Plant a Theuluoedd a gofrestrwyd yn 2022/23 yn ymwneud â phryderon achwynwyr am:

- Ymateb yr adran i bryderon a fynegwyd gan riant am les a llesiant y plentyn; hefyd, bod ymatebion yr adran i bryderon a fynegwyd gan riant arall y plentyn mewn perthynas â lles a llesiant y plentyn yn sylfaenol wahanol.
- Bod y trefniadau cyswllt sydd yn eu lle yn gyfyngedig a’r lleoliad yn anaddas.
- Asesiadau cyswllt wedi'u cwblhau i safon isel.
- Pryder am leoliad gofal maeth
- Materion cyfathrebu

4.2.2. Roedd yr 1 gŵyn am Wasanaethau Oedolion a gofrestrwyd yn 2022/23 yn ymwneud â phryderon achwynwyr am:

- Y ffaith nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol wedi delio’n briodol â dymuniadau'r defnyddiwr gwasanaeth ac aelodau'r teulu i’r gofal a’r cymorth gael ei ddarparu yn eu cartref.
- Materion cyfathrebu

4.2.3 Ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, cafodd yr unig gŵyn Cam 2 ei chadarnhau’n rhannol, ac ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, cafodd 3 eu cadarnhau’n rhannol, ni chadarnhawyd 1 gan yr ymchwilydd annibynnol ac mae 1 ymchwiliad yn dal ar agor ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn. Pan wnaed argymhellion yn adroddiadau Cam 2 a baratowyd gan Ymchwilwyr Annibynnol, lluniwyd Cynlluniau Gweithredu. Roedd rhai o'r camau gweithredu ar y rhain yn ymwneud â'r achwynwyr/achosion unigol. Cytunwyd hefyd ar gamau gweithredu er mwyn gweithredu’r hyn a ddysgwyd ac i wella gwasanaethau yn yr adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion, gan gynnwys:

- Trafod y dysgu a’r hyfforddiant gyda staff perthnasol
- Adolygu achosion yn yr adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Sicrhau bod protocolau, polisïau a systemau digonol ar waith.

4.2.4 Roedd y pwyntiau dysgu a nodwyd o gwynion Cam 2 am wasanaethau Oedolion yn ymwneud â:

- Ar lefelau strategol, dylid trafod a chanfod atebion sy'n arwain at weithredu protocolau effeithiol ar gyfer cydweithio mewn achosion cymhleth iawn o angen meddygol a gofal cymdeithasol o fewn y gymuned.
- Dylid cynnwys barn teuluoedd, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn gyson mewn Cyfarfodydd Adnoddau Cymunedol, yn enwedig yn yr achosion cymhleth hynny a allai fygwth bywyd lle cynigir trafodaethau'n ymwneud â gofal yn y dyfodol ac atebion o ran cymorth. Dylid mynd ati'n greadigol i ystyried sut y gallan nhw gymryd rhan yn cynnwys, mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb, trwy gyfarfodydd Teams/Zoom, a/neu drwy benodi eiriolydd i gynrychioli barn y teulu.
- Dylid ystyried Cydlynu Gofal mewn achosion cymhleth iawn – a thrwy hynny ddarparu pwynt cyswllt i'r teulu ond hefyd ar gyfer ymarferwyr ac asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r achos ac fel ffocws ar gyfer ystyried pob opsiwn ar gyfer cymorth.
- Dylid parhau i ystyried achosion cymhleth ac anarferol iawn fel cyfle i rannu'r dysgu sy'n dylanwadu ar y dulliau a'r drefn a weithredir mewn achosion tebyg yn y dyfodol.

4.2.5 Roedd y pwyntiau dysgu a nodwyd o gwynion Cam 2 am yr adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ymwneud â:

- Pan fydd rhiant yn codi pryderon a/neu'n gwneud atgyfeiriad, dylid trafod hyn yn uniongyrchol gyda nhw, a dylid rhoi gwybod iddynt am ganlyniad eu hatgyfeiriad.
- Mae angen cwblhau cofnodion ar ffeil mewn modd amserol er mwyn sicrhau cywirdeb a'u cofnodi yn yr adrannau cywir o'r ffeil. Dylai cronolegau groesgyfeirio at y rhain yn gywir.
- Mae angen i adroddiadau Cynhadledd Amddiffyn Plant fod yn hawdd eu dilyn a chynnwys meysydd clir o risgiau parhaus fel sail i'r categori niwed perthnasol.
- Mae angen dilyn i fynyf yr holl gyfathrebu a wneir ar lafar â rhieni drwy e-bost i gadarnhau camau gweithredu y cytunwyd arnynt.
- Mae angen darparu copïau o asesiadau, cofnodion ac adroddiadau i bob rhiant

4.2.6 Mae Tabl 6 isod yn adlewyrchu'r patrwm yn y blynyddoedd blaenorol, mae lefel y cwynion ar draws y ddau Wasanaeth yng nghyd-destun y galw am wasanaethau yn isel. Gan ddefnyddio nifer yr atgyfeiriadau i gymharu mae lefel y cwynion yng Ngham 1 yn 0.21% (oedolion) a 0.36% (Plant a Theuluoedd) ac ar gyfer cwynion Cam 2 0.02% a 0.11% yn y drefn honno.

**Tabl 6**

| Blwyddyn | Atgyfeiriadau Gwasanaethau Oedolion | Atgyfeiriadau Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | Gwasanaethau Oedolion Cam 1 | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cam 1 | Gwasanaethau Oedolion Cam 1 | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cam 1 | Cyfanswm Cam 1 | Gwasanaethau Oedolion Cam 2 | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cam 2 | Gwasanaethau Oedolion Cam 2 | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cam 2 | Cyfanswm Cam 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018/ 2019 | 4547 | 4325 | 14 | 30 | 0.31% | 0.69% | **44** | 6 | 2 | 0.13% | 0.05% | **8** |
| 2019/ 2020 | 4608 | 3969 | 5 | 32 | 0.11% | 0.81% | **37** | 0 | 7 | 0.00% | 0.18% | **7** |
| 2020/ 2021 | 3658 | 3844 | 6 | 18 | 0.16% | 0.47% | **24** | 0 | 6 | 0.00% | 0.16% | **6** |
| 2021/ 2022 | 4108 | 4302 | 17 | 24 | 0.41% | 0.56% | **41** | 4 | 5 | 0.10% | 0.12% | **9** |
| 2022/ 2023 | 4747 | 4698 | 10 | 17 | 0.21% | 0.36% | **27** | 1 | 5 | 0.02% | 0.11% | **6** |

## 5. Rhestr Ymchwilwyr Annibynnol

5.1 Mae'r 6 sir ar draws Gogledd Cymru yn cadw rhestr o Ymchwilwyr Annibynnol i ymchwilio i gwynion o dan Gam 2 o'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion.

5.2 Rhaid penodi Personau Annibynnol i oruchwylio ymchwiliadau i gwynion Cam 2 ynghylch cyflawni swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Penodwyd Person Annibynnol ar gyfer holl ymchwiliadau Cam 2 i gwynion am yr adran Gwasanaethau Plant yn ystod 2022/3.

## 6. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

6.1 Rhoddodd yr Ombwdsmon wybod i'r Awdurdod Lleol am gwynion gan 4 aelod o'r cyhoedd (roedd 3 ohonynt gan yr un person) yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2022/23 ond ni phenderfynodd gynnal ymchwiliad ffurfiol i'r rhain. Nid oedd unrhyw ymchwiliadau'n parhau o gwynion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

## 7. Gwasanaethau Eiriolaeth Proffesiynol

7.1 Mae gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol i blant yn cael eu darparu gan Tros Gynnal Plant Cymru fel rhan o wasanaeth eiriolaeth rhanbarthol. Gofynnir i bob plentyn sy'n gwneud cwynion i'r Gwasanaethau

Cymdeithasol a hoffent i eiriolwr eu cefnogi i wneud eu cwyn (os nad yw eiriolwr eisoes yn eu cefnogi), a gwneir atgyfeiriad i'r gwasanaeth eiriolaeth os ydyn nhw'n cydsynio i hyn.

7.2 Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru i ddarparu eiriolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion, gan gynnwys y rhai ag anghenion iechyd meddwl. Gall pobl sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r rhai sy'n derbyn gofal a thriniaeth fel cleifion mewnol ysbyty hefyd gael mynediad at wasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA), a gall y rhai sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl hefyd gael mynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol am ddim. Gall oedolion hefyd gael eu cyfeirio at fudiadau'r trydydd sector megis Canolfan Cyngor ar Bopeth neu Age Cymru.

## 8. Cwynion mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, a chwynion yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Tai

8.1 Mae protocol cwynion ar y cyd, 'Protocol Amlasiantaeth Gogledd Cymru ar gyfer Delio â Chwynion rhwng y Gwasanaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol', yn bodoli ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Ni wnaed unrhyw ymatebion ar y cyd i gwynion o dan y protocol hwn yn 2022/23.

8.2 Mae protocol mewnol yn ei le sy'n amlinellu’r broses ar gyfer anfon ymatebion ar y cyd i gwynion sy'n ymwneud â Gwasanaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol, pan fo cwyn yng Ngham 1 o Weithdrefn Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Deliwyd ag 1 gŵyn o dan y protocol hwn yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion.

## 9. Strategaeth Wybodaeth

9.1 Cyn y pandemig, roedd disgwyl i weithwyr roi taflenni cwynion i ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod eu hymweliad cyntaf â'r teulu. Fodd bynnag, yn 2022/23, yn dilyn y pandemig, y disgwyl yw bod pob defnyddiwr gwasanaeth sy'n gallu deall beth mae gwneud cwyn yn ei olygu yn cael gwybod ar lafar am y weithdrefn gwynion pan fydd y Gwasanaeth yn cysylltu â nhw ar y dechrau, a rhoi gwybod iddynt fod gwybodaeth am hyn ar gael ar wefan y Cyngor, a bod modd iddynt gael taflen gwynion os ydyn nhw’n dymuno. Atgoffir defnyddwyr gwasanaeth Gwasanaethau Oedolion o'u hawl i godi pryderon yn ystod Adolygiadau Blynyddol.

9.2 Mae gan y Gwasanaeth daflenni gwybodaeth ar gyfer plant ac oedolion ynglŷn â'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion. Mae taflen 'Hawdd ei Ddarllen' ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion. Mae'r taflenni ar gael i’w lawrlwytho ar wefan y Cyngor a gellir eu darparu hefyd ar ffurf copi caled. Mae ffurflen ar-lein ar wefan y Cyngor y gellir ei defnyddio ar gyfer gwneud cwynion.

9.3 Anfonir copi o'r daflen gwynion i achwynwyr pan dderbynnir cwynion ganddynt, ynghyd â'r llythyr ysgrifenedig i gydnabod eu cwyn.

## 10. Gwariant 2022/23

10.1 Wrth gynnal a gweithredu Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol o dan y canllawiau statudol, y prif gostau i'r Gwasanaeth (heblaw am gostau staffio) yw:

- Costau gwaith a wnaed gan Ymchwilwyr Annibynnol ar ymchwiliadau Cam 2.
- Costau gwaith a wnaed gan Bersonau Annibynnol ar ymchwiliadau Cam 2.

10.2 Mae Tabl 7 isod yn dangos gwariant ar waith gan Ymchwilwyr Annibynnol a Phersonau Annibynnol yn ystod y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 (ac eithrio costau ar gyfer ymchwiliadau lle na phroseswyd yr anfoneb tan 2023/2024 ond gan gynnwys costau ar gyfer ymchwiliadau o 2021/2022 lle proseswyd yr anfoneb yn 2022/23).

**Tabl 7**

| **Gwasanaeth** | **Gwariant ar Ymchwilwyr Annibynnol a Phersonau Annibynnol** |
|---|---|
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | £3,635.90 (costau Ymchwilwyr Annibynnol a Phersonau Annibynnol yn ymwneud â dau ymchwiliad Cam 2. Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn rydym yn dal i aros am anfonebau ar gyfer 1 ymchwiliad) |
| Gwasanaethau Oedolion | £2,677.25 (cost Ymchwilydd Annibynnol ar gyfer un ymchwiliad Cam 2) |

## 11. Monitro a gwerthuso’r modd y gweithredir Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol

11.1 Cyflwynir adroddiadau monitro chwarterol i Uwch Dimoedd Rheoli Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, sy'n crynhoi'r cwynion, y pryderon a'r canmoliaethau a dderbyniwyd am bob gwasanaeth o dan bob Cam o'r weithdrefn a'r pwyntiau dysgu o’r cwynion. Rydym hefyd yn monitro pa mor effeithiol yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol wrth ddelio â chwynion Cam 1 o fewn yr amserlenni gofynnol.

11.2 Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfod rhithwir rhwng Grŵp Swyddogion Cwynion Gogledd Cymru a Grŵp Swyddogion Cwynion Cymru Gyfan a thrafodwyd arfer da o ran delio â chwynion.

## 12. Hyfforddiant

12.1 Yn 2022/23, mae'r Swyddog Cwynion Dynodedig wedi cyflwyno hyfforddiant ar gwynion i staff a rheolwyr newydd fel rhan o'u sesiynau cynefino. Mae codi ymwybyddiaeth o’r weithdrefn gwynion yn rhan orfodol o sesiynau cynefino staff y Gwasanaethau Cymdeithasol.

12.2 Darperir canllawiau gan y Swyddog Cwynion Dynodedig i reolwyr ynghylch llythyrau ymateb a chyfarfodydd Cam 1. Mae'r Swyddog Cwynion Dynodedig yn dosbarthu protocolau mewnol i reolwyr newydd, yn ôl yr angen.

**Sian Hughes**
**Gwasanaethau Cymdeithasol Gofal Cwsmeriaid, Cwynion a Rheolwr Gwybodaeth**

**Dyddiad: Mehefin 2023**

AM DDIM

# NEWYDDLEN YNYS MÔN OED-GYFEILLGAR


Ynys Môn Oed-Gyfeillgar / Age-Friendly Anglesey

RHIFYN #1 - HAF/HYDREF 2023

**YN Y RHIFYN HWN...**

**NEWYDD! Cyfeirlyfr Adeiladau Cymunedol**

Canllaw defnyddiol o'r adeiladau cyhoeddus ar Ynys Môn




**Cefnogaeth i atal Sgamiau**

Cyfle i ddysgu sut gall Safonau Masnach helpu



**Dewch i Nabod... Ellie Owen**

Swyddog Prosiect Dementia Actif Môn

... a llawer mwy!



# Dathlu Ynys Môn 'Oed-Gyfeillgar'

Mae'r newyddion fod Ynys Môn wedi ei derbyn fel aelod swyddogol o Rwydwaith Byd-eang Cymunedau Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd wedi'i groesawu.

Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys dros 1,400 o gymunedau mewn 51 o wledydd ledled y byd. Fel aelod newydd o'r rhwydwaith, mae Ynys Môn yn rhan o symudiad byd-eang sydd yn ceisio creu cymunedau ble gall bawb edrych ymlaen at heneiddio'n dda ynddynt.

Gwnaethpwyd y cyhoeddiad swyddogol gan Bencampwr Oed-Gyfeillgar Cyngor Sir Ynys Môn, y Cynghorydd Gwilym Jones, yn ystod cyfarfod ddiweddar o Fforwm Pobl Hŷn Ynys Môn yn M-SParc Gaerwen.

Dywedodd y Cynghorydd Gwilym Jones, "Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn a'r Ynys yn ei gyfanrwydd, hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru a Thîm Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y gefnogaeth yn ystod ein taith i fod yn aelodau o'r Rhwydwaith. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i adeiladu ar y berthynas bwysig hon, ac i ddatblygu cynlluniau cyffrous ar gyfer trigolion yr Ynys."

Roedd rhwydwaith o dros 100 o bartneriaid lleol ynghlwm â'r gwaith o sicrhau statws Ynys Môn Oed-Gyfeillgar. Fodd bynnag, mae'r gwaith caled yn dechrau nawr, a byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod Ynys Môn yn gwneud y gorau o'i statws newydd a bod pawb yn gallu heneiddio'n dda.

# Croeso i'r Newyddlen

**gan y Cynghorydd Gwilym Jones, Pencampwr Oed-Gyfeillgar Ynys Môn**

Croeso mawr i chi i'r rhifyn cyntaf un o Newyddlen Ynys Môn Oed-Gyfeillgar, ac Oed-Gyfeillgar yn sicr, wrth i Ynys Môn yn ddiweddar ymuno'n swyddogol a'r Rhwydwaith Byd-eang Cymunedau Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd!




Ym mis Mai 2022 ces i'r anrhydedd o dderbyn gwahoddiad gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Llinos Medi, i ddod yn Bencampwr Oed-Gyfeillgar i Ynys Môn. Mae hi wedi bod yn fraint dros y flwyddyn ddiwethaf i weld y gwaith Oed-Gyfeillgar gwych sy'n digwydd ar draws yr ynys. Hoffwn estyn diolch i bawb sy'n gweithio mor galed ar draws yr Ynys i gefnogi ein trigolion i heneiddio'n dda.

Ond, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch yn enwedig i ddau swyddog o fewn y Cyngor Sir am arwain ar y gwaith yn wych sef Sioned Young, Swyddog Datblygu Cymunedau Oed-Gyfeillgar, a Seiriol Edwards, Rheolwr Strategaethau Pobl Hŷn.

Drwy'r newyddlen hon dwi'n gobeithio y cewch chi eich ysbrydoli gan yr holl gyfleoedd arbennig sydd ar gael i gefnogi trigolion yr ynys o bob oed i heneiddio'n dda. Mae'r rhifyn yn cynnwys pob math o wybodaeth ddefnyddiol, o sut i atal sgamiau, i leisio eich barn ar atgau digidol, i glybiau a gweithgareddau hyd a lled yr ynys.

Cofiwch hefyd i'w rannu gyda'ch cyfeillion a chymdogion, gan bod gennym i gyd rôl i'w chwarae mewn cyfrannu at greu Ynys Môn Oed-Gyfeillgar.

*Y Cynghorydd Gwilym Jones*

Pencampwr Oed-Gyfeillgar Ynys Môn

# Ymunwch â'r rhestr bostio

**SGANIWCH FI!**

Eisiau'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau Ynys Môn Oed-Gyfeillgar a sut allwch chi fod yn rhan o'r gwaith? Sganiwch y cod QR gyda'ch ffon i ymuno a rhestr bostio Ynys Môn Oed-Gyfeillgar a derbyn y newyddlen hon dros e-bost dair gwaith y flwyddyn.

Neu, i wneud cais am gopi papur i'ch hun neu Adeilad Cymunedol, cysylltwch â'r Swyddog Datblygu Cymunedau Oed-Gyfeillgar, Sioned Young ar 01248 751 832 neu sionedyoung@ynysmon.llyw.cymru

# Fforymau Pobl Hŷn Ynys Môn

Yn dilyn saib dros y cyfnod clo, mae Fforymau Pobl Hŷn Ynys Môn yn ôl – nawr fel fforymau llai, lleol sy'n cael eu cynnal allan yn y gymuned. Ym mis Mawrth a Mehefin 2023 cynhelir cyfanswm o 11 Fforwm Lleol ar hyd a lled yr ynys, gyda mwy i ddilyn dros weddill y flwyddyn.

Mae'r Fforymau Pobl Hŷn yn cael eu harwain gan Cyngor Sir Ynys Môn ac Age Cymru Gwynedd a Môn a'n rhoi cyfle i bobl dod ynghyd i ddysgu am y wahanol fath o gefnogaeth a chyfleoedd sydd ar gael i'w helpu i heneiddio'n dda. Mae yno hefyd cyfle i'r mynychwyr rhannu beth sy'n bwysig iddynt ac unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu, a chael cymdeithasu dros baned.

Yng Ngorffennaf fe gynhelir Fforwm Ynys-Gyfan cyntaf y flwyddyn yn M-SParc, Gaerwen, ble bu cyfle i gynrychiolwyr o bob rhan o'r ynys ddod ynghyd i edrych ar thema boblogaidd o'r fforymau lleol. Y thema i'r Fforwm Ynys-Gyfan gyntaf oedd **Cyfathrebu ac Ymgysylltu**, a bu'n cynnwys cyflwyniadau diddorol gan Cymunedau Digidol Cymru, Medrwn Môn, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd hefyd cyfle i bawb gymysgu a rhannu ymarfer da.

Bydd y Fforwm Ynys-Gyfan yn cael ei gynnal dwywaith y flwyddyn, gyda'r Fforymau Lleol i barhau yn chwarterol allan yn y gymuned.




Ema Williams, Siaradwr Gwadd i'r Fforwm Ynys-Gyfan o Cymunedau Digidol Cymru (Cwmpas).



Fforwm Pobl Hŷn Lleol yng Ngwalchmai ym mis Mehefin



Bu cynrychiolwyr o hyd a lled yr ynys yn bresennol i'm Fforwm Ynys-Gyfan yng Ngorffennaf.

Am y wybodaeth ddiweddaraf am Fforymau Lleol yn eich ardal chi, cysylltwch â'r Swyddog Datblygu Cymunedau Oed-Gyfeillgar, Sioned Young ar 01248 751 832 sionedyoung@ynysmon.llyw.cymru , neu cadwch lygad ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn am y newyddion diweddaraf.

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

Ynys Môn Oed-Gyfeillgar Age-Friendly Anglesey

Gwynedd a Môn age Cymru

# Allgáu Digidol

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn i Gymru yn awyddus i glywed am y materion a'r heriau a wynebir gan bobl hŷn sydd ddim ar-lein neu sydd heb lawer o sgiliau digidol, a'n gwahodd pobl hŷn i rannu eu profiadau a rhoi gwybod am sut mae allgau digidol yn effeithio arnynt.

Gall enghreifftiau cynnwys trafferthion yn gwneud apwyntiad gyda'ch meddyg teulu, dod o hyd i wybodaeth a chyngor, gwneud taliadau, a.y.b.




**I rannu eich profiadau, ffoniwch 03442 640 670.**

# Ymwybyddiaeth Dementia

Ar yr 18fed o Orffennaf mi wnaeth rai o staff Cyngor Sir Ynys Môn fynychu sesiwn Ymwybyddiaeth Dementia, wedi'i arwain gan Bencampwr Dementia Cheryl Williams o Gymdeithas Alzheimer's Cymru. Bu mynychwyr yn cynnwys staff o Cyswllt Môn, Gwasanaeth Llyfrgelloedd, Môn Actif, a Gwasanaethau Oedolion.

Bydd y sesiwn ymwybyddiaeth nawr yn helpu staff i gefnogi pobl sy'n byw gyda Dementia a'u gofalwyr yn well of fewn eu gwaith dydd i ddydd.



**Os oes gennych chi ddiddordeb mewn mynychu sesiwn Ymwybyddiaeth Dementia, cysylltwch â Swyddog Prosiect Dementia Actif Môn, Eban Geal ar 01248 752957 neu EbanGeal@ynysmon.llyw.cymru**

# Cefnogaeth i atal sgamiau

**Ydych chi neu rywun ydych yn ei adnabod yn wynebu problemau gyda sgamiau neu alwadau niwsans? Mae'r adran Safonau Masnach o fewn Cyngor Sir Ynys Môn yn barod i helpu!**

## Ymwybyddiaeth Sgamiau

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o sgamiau a sut i osgoi sgamiau yn y dyfodol, pe bai hynny'n ffon, post neu ar-lein, mae gan Safonau Masnach cefnogaeth ar gael. Gallant gyfeirio trigolion i adnoddau pellach os hoffent addysgu eu hunain neu gael cefnogaeth ychwanegol pan ddaw hi i sgamiau.

Mae hi hefyd yn bosib trefnu ymweliad gan Safonau Masnach i'ch grŵp cymunedol er mwyn trafod sgamiau wyneb yn wyneb.

Cysylltwch Safonau Masnach ar safonaumasnach@ynysmon.llyw.cymru neu 01248 752840 i drefnu ymweliad neu wneud cais am gopi o'u canllawiau.

## Atalyddion Galwadau

trueCall

Rydym yn ymwybodol bod rhai o drigolion yr ynys yn wynebu nifer uchel o alwadau niwsans/ oer. I gefnogi'r trigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau, mae gan Safonau Masnach nifer cyfyngedig o atalyddion galwadau (Call Blockers) TruCall ar gael.




Os hoffech weld os ydych chi'n gymwys ar gyfer atalydd galwadau neu'n adnabod rhywun byddai'n buddio o un, cysylltwch ar safonaumasnach@ynysmon.llyw.cymru neu ffoniwch 01248 752840.

# Cyfeirlyfr Adeiladau Cymunedol Ynys Môn

SGANIWCH FI!

Mae adnodd newydd sbon wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar gan Cyngor Sir Ynys Môn sef Cyfeirlyfr Adeiladau Cymunedol. Mae'r cyfeirlyfr yn cynnwys gwybodaeth am dros 50 o adeiladau cymunedol yr ynys gan gynnwys manylion cyswllt, hygyrchedd a'r fath o weithgareddau a gynigir. Bwriad y cyfeirlyfr yw helpu mwy o bobl i fynychu gweithgareddau o fewn eu cymunedau, ac i gefnogi mudiadau a gwasanaethau i ddod a mwy o'u darpariaeth allan i'r gymuned.

Sganiwch y cod QR gyda'ch camera ar eich ffôn er mwyn agor y cyfeirlyfr neu chwiliwch 'Cyfeirlyfr Adeiladau Cymunedol' ar wefan y Cyngor. I dderbyn copi papur, cysylltwch â Sioned Young ar sionedyoung@ynysmon.llyw.cymru neu 01248 751 832.




# Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymweld ag Ynys Môn





Ar Ddydd Mawrth y 25ain o Orffennaf croesawir y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Eluned Morgan i'r Ganolfan Dementia Ynys Môn newydd sydd wedi ei lleoli yn Canolfan Glanhwfa Llangefni (Capel Moreia).

Cafodd y Gweinidog gyfle i weld y datblygiad a chael blas ar y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal o fewn y ganolfan. Yn ogystal cafwyd cyfle i drafod y weledigaeth ar gyfer y camau nesaf gydag uwch swyddogion y Cyngor Sir, Aelodau Etholedig a phartneriaid allweddol.

# Dewch i Nabod ... Ellie Owen

**Ym mhob rhifyn o'r Newyddlen Ynys Môn Oed-Gyfeillgar bu cyfle i chi ddod i adnabod rhywun sy'n gweithio neu wirfoddoli yn y maes yn well. Tro hyn cyfle i ddysgu mwy am Ellie Owen, Hyfforddwr Dementia Actif Môn.**

### Pwy wyt ti a beth wyt ti'n ei wneud?

Helo, Ellie Owen ydw i ac ym mis Gorffennaf mi wnes i gychwyn gweithio fel Hyfforddwr Dementia Actif Môn i Môn Actif.


O fewn fy rôl dwi'n arwain gweithgareddau fel Boccia a Hyfforddiant Cylchdaith ysgafn o fewn Cartrefi Gofal ar hyd yr ynys ac yn y Canolfan Dementia newydd yn Canolfan Glanhwfa (Capel Moreia), Llangefni i bobl sy'n byw gyda Dementia a'u gofalwyr.



**Ellie Owen**
**Hyfforddwr Dementia Actif Môn**

### Beth wnaeth dy ddenu i'r swydd?

Cyn cychwyn yn y swydd hon mi oeddwn i'n gweithio ar y dderbynfa yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur, a'n aml yn gweld Eban Geal, y Swyddog Dementia Actif Môn yn mynd yn ol ac ymlaen i arwain gweithdai yn y gymuned. Drwy sgwrsio ag ef a darllen y **Cyfeirlyfr Dementia Ynys Môn** wnes i ddod i ddysgu mwy am y gwaith gwych sy'n mynd ymlaen ar hyd yr ynys i gefnogi pobl sy'n byw gyda Dementia, ac oni'n awyddus i fod yn rhan ohono. Oedd fy nain hefyd yn byw gyda Dementia a dwi'n meddwl y byddai hi wedi mwynhau'r holl weithgareddau sydd ar gael ar yr ynys.




**Cyfeirlyfr Dementia Ynys Môn**

### Ble yw dy hoff le ar Ynys Môn ?

Aberffraw. Dyna ble ces i fy magu a dwi wrth fy modd yn cerdded ar hyd y traeth yno.

### Pa air o gyngor sydd gen ti i drigolion Ynys Môn i'w helpu i heneiddio'n dda?

Mae ychydig bach o symud yn gwneud lot mawr o wahaniaeth!

I ddysgu mwy am Dementia Actif Môn, cysylltwch ar dementiaactifmon@ynysmon.llyw.cymru neu 01248 752 957.

# Heneiddio'n Dda

**Gweithgareddau, digwyddiadau a chymorth i'ch cefnogi i heneiddio'n dda...**

## NIFTY60S

Mae'r Grŵp Nifty60s wedi'i leoli yn y Holyhead & Anglesey Weightlifting & Fitness Centre (HAWFC). Mae'n cefnogi pobl dros 60 gyda hyfforddiant ymwrthedd a swyddogaethol, gyda'r amcan o wella cryfder, cydbwysedd, a symudedd. Grŵp Uwch yn cwrdd ar Ddydd Llun a Gwener 11.30yb - 12.30yh, a Dechreuwyr ar Ddydd Mawrth ac Iau 10.30 - 11.30yb.

£2 fesul dosbarth. I gofrestru neu am ragor o wybodaeth, ffoniwch HAWFC ar 01407 763300 rhwng 9-11yb a 5-8yh, neu Jim Lee MBE ar 07818411145.

## CYFEILLION NEUADD GOFFA AMLWCH

Mae'r grŵp yn cwrdd yn y Neuadd Goffa pob Dydd Iau 10yb-3yh. Gweithgareddau'n cynnwys badminton, bowlio dan-do, celf/crefft, grŵp ukulele, cyfarfod a sgwrsio a ffrindiau, a gwneud ffrindiau newydd. Diodydd a chinio ysgafn ar gael. Croeso cynnes i bawb. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Julie ar 07814 212977.

## CLWB Y COB, Y FALI

Mae Clwb Y Cob, Y Fali yn grŵp 50+ sy'n cwrdd yn y Valley Hotel ar 2il Ddydd Lun y mis 2-4yh. Rydym yn grŵp gweithgar a chyfeillgar. Aelodaeth Flynyddol: £8. Mae gennym ni sgyrsiau, arddangosfeydd a theithiau a'n mynd allan am fwyd. Croeso cynnes i wynebau newydd. Cysylltwch â Mavis Swaine-Williams ar 01407 741 255.

## GRŴP YR HENOED CEMAES

Mae'r grŵp yn cwrdd yng Ngwesty'r Harbwr pob Dydd Iau o 11.30yb – 2.30yh am ginio, bingo, a chyfle i gymdeithasu, a'n cynnig croeso cynnes i unrhyw un a hoffai ymuno.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch Yr Harbwr ar 01407 710052 neu Eric Torr ar 01407 710 288.

## CLWB Y GORLAN

- WI Amlwch: Dydd Mercher cyntaf y mis am 1.45yh
- WI Eleth: Ail Ddydd Mawrth y mis am 7yh
- Merched y Wawr Amlwch: Ail Ddydd Mercher y mis am 7yh
- Age Well yn cwrdd am 10.30yb pob Dydd Mawrth a Dydd Iau

Mae'r uchod oll yn cwrdd yn Clwb y Gorlan, Amlwch. Maent wastad yn edrych i groesawu aelodau newydd. Mae Clwb y Gorlan ar gael i'w logi gan unrhyw grŵp newydd. Wi-Fi am ddim hefyd ar gael. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 07787557211 neu 07776220662.

## GRŴP 50+ BODORGAN

Mae Grŵp 50+ Bodorgan yn cyfarfod ar y trydydd Dydd Mawrth o bob mis, oni bai y dwedir yn wahanol. Rydym yn cwrdd rhwng 2yh - 4yh yn Canolfan Gymunedol Bodorgan, oni bai pan mae teithiau wedi'i drefnu. Mae gennym ni galendr o ddigwyddiadau diddorol ac amrywiol. Dylai unrhyw un sy'n dymuno ymuno a ni cysylltu Gill Smith (Ysgrifenyddes) ar 07769 347217. Ffi Aelodaeth Flynyddol: £10.

## CLWB CINIO GWELFOR

Clwb Cinio yn Canolfan Gymunedol Gwelfor, Ffordd Tudur, Caergybi, pob Dydd Llun (dim Gwyliau Banc) o 11.30yb - 1.15yh. Cinio 3 cwrs o gawl, prif bryd, pwdin, a the a choffi.
Cost: £8.00.

Ar agor i bobl hŷn o Gaergybi a'r ardaloedd cyfagos. Cyfle i bobl gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd. Byddwch yn derbyn croeso cynnes gan ein gwirfoddolwyr hyfryd.

Bingo Gwelfor i ddilyn o'r Clwb Cinio i'r rheiny sydd eisiau gwneud diwrnod ohoni! Bingo'n cychwyn am 2yh tan oddeutu 3.45yh.

Cyswllt: 01407 763 559 / gcc.2@hotmail.com

**Eisiau hyrwyddo eich grŵp neu glwb yn y rhifyn nesaf o'r Newyddlen Ynys Môn Oed-Gyfeillgar? Os felly, cysylltwch â Sioned Young ar 01248 751 832 neu sionedyoung@ynysmon.llyw.cymru**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **21 Tachwedd, 2023** |
| **Pwnc:** | **Enwebiad Pwyllgor – Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Panel Rhiantu Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Enwebu un Aelod Etholedig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Rhiantu Corfforaethol** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Alun Roberts, Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol**<br>**Cyng Gary Pritchard, Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**Fôn Roberts, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**<br>**Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| **A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol enwebu un Aelod Etholedig o blith y Pwyllgor Sgriwtini i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Rhiantu Corfforaethol**. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Amherthnasol |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt: |

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Amherthnasol

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol y rhoddwyd ystyriaeth i nifer o banelau sydd angen cynrychiolaeth Aelod Sgriwtini mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022. Cytunwyd ar enwebiadau ar gyfer y 3 Phanel Sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn trafod aelodaeth y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Rhiantu Corfforaethol.

1.2 Mae cylch gorchwyl y Panel ynghlwm (**Atodiad 1**) er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y broses enwebu.

2. **Trafodaeth**

2.1 **Aelodaeth y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol**

Nid yw aelodaeth y panelau'n ddarostyngedig i'r egwyddorion a'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol[1]. Mae aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- **Aelodau Etholedig** – 4 Aelod o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini[2]
- **Deilyddion Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd** – fel sylwedyddion heb bleidlais
- **Swyddogion –** Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Rheolwr Sgriwtini.

2.2 **Aelodaeth Gyfredol y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol**

Yn sgil ystyriaeth gan y ddau Bwyllgor Sgriwtini ym mis Mehefin 2022[3], mae aelodaeth gyfredol y Panel fel a ganlyn:

- **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (4 Aelod)**
  - i. Cyng Llio Angharad Owen
  - ii. Cyng Sonia Williams

[1] Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol
[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
[3] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022 a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 21 Mehefin, 2022

iii. Cyng Jackie Lewis
iv. Cyng Alwen Watkin

- **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (4 Aelod)**
  i. Cyng Euryn Morris (Cadair)
  ii. Cyng Pip O'Neill (Is-gadair)
  iii. Cyng John Ifan Jones
  iv. Cyng Jeff Evans.

**2.3** Mae un sedd wag wedi codi ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol o ganlyniad i ymddiswyddiad y Cynghorydd Alwen Watkin. Daw'r sedd wag hon o blith yr Aelodau Etholedig sy'n cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel. O ganlyniad, mae yna hefyd sedd wag ar y Panel Rhiantu Corfforaethol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini enwebu un Aelod Etholedig i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Rhiantu Corfforaethol.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Amherthnasol |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Amherthnasol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Amherthnasol |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Cylch Gorchwyl – Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

## CYLCH GORCHWYL A *MODUS OPERANDI*

## PANEL SGRIWTINI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL / PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

## RHAN I – CEFNDIR A CHYD-DESTUN

### Craffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cadw plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn ddiogel yn rôl hanfodol bwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Cyngor a phartneriaid weithio'n effeithiol efo'i gilydd. Cafwyd sylw cyhoeddus sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd enghreifftiau proffil uchel cenedlaethol lle mae'r system wedi methu unigolion bregus, gyda chanlyniadau trychinebus.

Wrth adrodd ar ganlyniadau arolwg gwael, mae'r Arolygaethau[1] yn y maes gofal yn aml yn dyfynnu arfer craffu gwael ochr yn ochr â methiannau yn agweddau eraill y system. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r polisïau a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i warchod plant a phobl ifanc bregus felly'n elfen allweddol o rôl arweinyddol yr aelodau Sgriwtini.

Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn elfen allweddol o rôl arweinyddiaeth Aelodau Sgriwtini ac yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n golygu sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn rhan o'r gwaith cynllunio, gweithredu a gwaith dilynol ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar unigolion bregus yn ein cymunedau lleol neu yn y system ofal. Felly, gall craffu effeithiol:

- Herio'n effeithiol
- Dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau cadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Rhiantu Corfforaethol

Mae rôl a chyfrifoldebau Rhiantu Corfforaethol yr Awdurdod Lleol wedi'u diffinio mewn statud[2] ac yn berthnasol i Aelodau Etholedig, swyddogion ac asiantaethau partner. Fel rhieni corfforaethol, dylai pob Aelod geisio cael y wybodaeth ddiweddaraf am blant yng ngofal y Cyngor a'r rhai sy'n gadael gofal ac mae'r Panel Rhiantu Corfforaethol yn fforwm pwysig ar gyfer trafodaeth fanwl a rheolaidd ar faterion allweddol.

### Ein Trefniadau Lleol

Mae craffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi esblygu a datblygu ers sefydlu'r[3] Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd rôl y Panel yn canolbwyntio ar fonitro a chraffu ar gynnydd a'r pellter a deithiwyd yn erbyn rhaglen wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol a pherfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol; rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gynnydd digonol ac amserol / perfformiad lleol. Mae'r gwaith craffu a wnaed gan y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol yn ystod y Weinyddiaeth ddiwethaf wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol, gan gael effaith ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol a'r daith wella:

---

[1] Arolygiaeth Gofal Cymru; Comisiwn Ansawdd Gofal (Lloegr)

[2] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

[3] Sefydlwyd Panel Gwella Gwasanaethau Plant ym mis Mehefin, 2017 ac ehangwyd ei sgôp i gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ym mis Mehefin, 2019.

- Datblygu model yn ffocysu ar grŵp llai o aelodau
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

**Cyfrifoldebau Rhiantu Corfforaethol**
Yn sgil adroddiad[4] Archwilio Mewnol ar drefniadau rhiantu corfforaethol yr Awdurdod, mae'n amserol adolygu'r cylch gorchwyl a'r trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi'r Panel Rhiantu Corfforaethol er mwyn cyd-fynd â Phanel Sgriwtini'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r ddogfen hon felly yn anelu at ymgorffori'r materion a ganlyn:

i. Cylch gorchwyl diwygiedig
ii. Fframwaith llywodraethu ac ysgrifenyddiaeth i gefnogi'r Panel i gynnwys – blaen raglen waith ffurfiol, adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith, adroddiadau sy'n amlinellu materion allweddol i Aelodau eu hystyried ac unrhyw argymhellion.

## RHAN II – CYLCH GWAITH A CHWMPAS Y PANEL

### CYLCH GWAITH
Mae'n **gam naturiol nesaf** i ddatblygu gwaith sgriwtini Aelodau ymhellach ar y Gwasanaethau Cymdeithasol gan sicrhau cwmpas ehangach i'w gwaith, gyda'r manteision allweddol a ganlyn:

- Datblygu model o weithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar grŵp llai i alluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, i ddatblygu lefel o arbenigedd pwnc ac i annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Cryfhau gallu Aelodau i herio perfformiad ymhellach drwy wella ansawdd gwybodaeth a data am ysgolion
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau Gwasanaeth fel sail i lywio rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda'r arbenigedd a pherchnogaeth i arwain trafodaethau ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

**Yr hyn mae'r Arolygiaeth Gofal yn disgwyl ei weld o ran arweinyddiaeth wlediyddol:**

Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'r effeithiol.

Rôl y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol fydd:

1. Monitro a chraffu mewn modd ystyrlon a chadarn ar:
    - Gynnydd a'r pellter a deithwyd yn erbyn rhaglenni datblygu'r Gwasanaeth
    - Berfformiad meintiol ac ansoddol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

[4] Panel Rhiantu Corfforaethol: Adroddiad Archwilio Mewnol dyddiedig Ionawr, 2021

2. Sicrhau bod llais plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael ei glywed wrth ystyried effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau

3. Cyflawni cyfrifoldebau'r cyn Banel Rhiantu Corfforaethol (**Atodiad 1**)

4. Cynnig sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar yr elfennau canlynol:
    - Cynnydd digonol ac amserol wrth wireddu rhaglenni datblygu'r Gwasanaeth
    - Perfformiad meintiol ac ansoddol y gefnogaeth a'r gwasanaethau gofal ar gael i blant, pobl ifanc ac oedolion
    - Digonolrwydd ein cyfrifoldebau rhiantu corfforaethol.

**CWMPAS**

| Pwnc | Ffocws Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Sgriwtini Effeithiol** | **Anwytho** aelodau'r Panel – fformat gweithdy. | Gorffennaf 2021 ac yn ystod cyfarfodydd y Panel. |
| Sgiliau | **Sgiliau -** mewnbynnau hyfforddi a datblygu i sicrhau eglurder o ran rôl a gwybodaeth am y pwnc er mwyn galluogi craffu effeithiol e.e AGC, arweinwyr meysydd gwasanaeth, partneriaid. | Cyflawni drwy gydol y flwyddyn ddinesig gan sicrhau aliniad â gwaith sgriwtini y Panel |
| Hunan-werthuso | **Hunan-werthuso** – Aelodau'n beirniadu eu perfformiad eu hunain er mwyn galluogi adolygu, myfyrio a dysgu. Amcanion:<br><br>i. Cymryd stoc<br>ii. Adolygu, gwerthuso a myfyrio<br>iii. Sefydlu sylfaen ar gyfer y cyfnod nesaf<br>iv. Cadarnhau perchnogaeth yr Aelodau. | Yn flynyddol – i'w benderfynu gan aelodau'r Panel |
| **Rhiantu Corfforaethol**<br><br>Sgiliau a Gwybodaeth | Mewnbynnau hyfforddi a datblygu i sicrhau eglurder o ran rôl a chyfrifoldebau | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| Ffocws | Fframwaith Cyfreithiol<br>Darpariaeth gofal ar Ynys Môn<br>Canlyniadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal<br>Strategaeth Derbyn Gofal a Gadael Gofal. | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Ymweliadau Laming** | Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i gwrdd â staff o amrywiaeth o dimau er mwyn clywed profiadau uniongyrchol staff. | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Rhanddeiliaid** | Craffu ar: | Cyflawni drwy gydol y flwyddyn ddinesig |

| Pwnc | Ffocws Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| | • lais / ddylanwad rhanddeiliaid yn narpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn<br>• effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth gefnogi darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | gan sicrhau aliniad â gwaith sgriwtini y Panel |
| **Llais y Defnyddiwr Gwasanaeth** | Craffu effeithiolrwydd y mecanweithiau sydd mewn lle i glywed llais plant, pobl ifanc ac oedolion fel rhan annatod o ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn. | Cyflawni drwy gydol y flwyddyn ddinesig gan sicrhau aliniad â gwaith sgriwtini y Panel |
| **Perfformiad** | Monitro Dangosyddion Perfformiad mewnol ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd. | Cyflawni drwy gydol y flwyddyn ddinesig gan sicrhau aliniad â gwaith sgriwtini y Panel |
| **Rhaglenni Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol a Sicrhau Ansawdd** | Derbyn diweddariadau mewn perthynas â Rhaglen Ddatblygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gwaith Sicrhau Ansawdd. | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |

## RHAN III – TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT

**1. Aelodaeth y Panel**
Ni fydd aelodaeth y Panel yn amodol ar egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[5].

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

i. **Aelodau Etholedig** - 4 Aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
ii. **Aelodau Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Gwasanaethau Plant)** – fel sylwedyddion, heb bleidlais
iii. **Swyddogion** – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Rheolwr Sgriwtini.

Bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

**Panel Rhiantu Corfforaethol**
Fel yr uchod a hefyd:

<u>Cyngor Sir Ynys Môn</u>

**i.** **Aelodau Etholedig –** Deilyddion Portffolio – Tai, Plant ac Addysg
**ii.** **Prif Weithredwr (cadeirio)**
**iii.** **Gwasanaethau Cymdeithasol –** Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys; Swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol, Swyddogion Addysg Plant mewn Gofal a Gwasanaethau Ieuenctid
**iv.** **Housing Services –** Pennaeth Gwasanaethau Tai

[5] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

v. **Addysg –** Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc; Uwch Reolwr – Llesiant

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

vi. Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Plant)
vii. Nyrs Plant mewn Gofal
viii. **Cymdeithas Rhieni Maeth Ynys Môn –** 1 cynrychiolydd
ix. **Tros Gynnal** – 1 cynrychiolydd

**2. Amlder Cyfarfodydd a Chworwm**

- **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i sicrhau atebolrwydd, trosolwg a chraffu'r gwasanaethau cymdeithasol / rhiantu corfforaethol ar Ynys Môn, fel sydd wedi'i grynhoi yn y tabl uchod. Bydd y Panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni cyflwyno adroddiadau cynnydd ar graffu gwasanaethau cymdeithasol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

- **Quorum** – ni fydd yn berthnasol i'r panel.

**3. Cofnodi Cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

- **Trefn adrodd** – cyflwyno adroddiadau rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

[26/05/22]

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **21 Tachwedd, 2023** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2023/24** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2023/24 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2023

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2023/24 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2023→ Ebrill, 2024**
**[Fersiwn dyddiedig 14/11/23]**



## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2023 (23/05/23)** | **Mai, 2023 (23/05/23)** |
| Ethol Cadeirydd: 2023/24 | Ethol Cadeirydd: 2023/24 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 | Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 |
| | |
| **Mehefin, 2023 (20/06/23) – Ch4** | **Mehefin, 2023 (21/06/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2022/23 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2022/23<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2022/23 → Mesur Cynnydd<br>• Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg |
| Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2022/23 |
| Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Cynllun Rheolaeth Cyrchfan |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch 4 2022/23 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Medi, 2023 (19/09/23) – Ch1** | **Medi, 2023 (19/09/23) - Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2023/24 | Ymgynghoriad ar Ddyfodol Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru – sylwadau Cyngor Sir Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2022/23 |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid | Siarter Craffu Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Hydref, 2023 (18/10/23) – cyfarfod wedi'i ddiddymu** | **Hydref, 2023 (17/10/22)** |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2022/23 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2022/23 |
| | Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus: 2023-2028 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| | **Tachwedd, 2023 (13/11/2023) – Cyfarfod Ychwanegol** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Tachwedd, 2023 (21/11/23) - Ch2** | **Tachwedd, 2023 (22/11/23) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2023/24 | Cynllun Strategol Adnoddau ac Ail-gylchu: 2023/2028 |
| Cynllun Strategol Tai Gwag: 2023/28 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2022/23 |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Panel Rhiantu Corfforaethol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ionawr, 2024 (18/01/24) – Cyllideb 2024/25** | **Ionawr, 2024 (16/01/24)** |
| Sefydlu Cyllideb 2024/25 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Ch2: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi) |
| Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai) | |
| Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol:2023/2028 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Chwefror, 2024 (27/02/24) – Cyllideb 2024/25** | **Chwefror, 2024 (06/02/24) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2024/25 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu |
| | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2022/23 |
| | Cynllun Cydraddoldeb: 2023/2027 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Mawrth, 2024 (12/03/23) - Ch3** | **Mawrth, 2024 (13/03/24)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2024/2054 | |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ebrill, 2024 (16/04/24)** | **Ebrill, 2024 (17/04/2024)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |



**Eitemau i'w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd (Tachwedd, 2024 ac Ionawr, 2025) |
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |

| | |
|---|---|
| | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/223) |
| | |